

ECO'R WYDDFA

Rhif 77

Rhagfyr 1982 – Ionawr 1983

Pris 20c

YMDDEOLIAD ATHRO

Ar ddiwedd y tymor hwn mae Evie Roberts yn ymddeol o'i swydd fel athro yn Ysgol Brynrefail Llanrug. Bu'n dysgu celf yn yr ysgol am 26 mlynedd. Dyma werthfawrogiad byr ohono wedi'i ysgrifennu'n arbennig i'r Eco gan W. Elfyn Thomas y Prifathro.

Y mae cysylltiad Mr Roberts â'r ardal hon yn mynd yn ôl ymhell iawn. Cyn dod i'r Ysgol hon fel athro Celf ym 1956 fe fu yn athro yn Ysgol Dolbadarn am naw mlynedd – cysylltiad felly sy'n mynd yn ôl i 1947! Ond nid hyd ei gysylltiad sy'n bwysig ond ei ansawdd.



Person tawel, diymhongar llawn hwmor dda a llawn awydd i helpu ei gyd-ddyn boed ddisgybl, cyd-athro neu unrhyw un arall, a fu erioed. Hefyd, mae yn athro cwbl ymroddedig, yn medru ennyn gwaith o'i ddisgyblion sydd wedi arwain i

ganlyniadau arholiad rhagorol ac i ennill llw o gystadlaethau ar hyd y blynyddoedd. Bron yn ddieithriad byddai un neu fwy o'i ddisgyblion yn cael gwobr gyntaf (heb sôn am ail, trydydd ac yn y blaen) yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Ym 1977 cafodd yr Ysgol wobwr arbennig yng nghystadleuaeth y Western Mail fel yr Ysgol a oedd wedi ennill y nifer fwyaf o wobrau o holl ysgolion Cymru – gorchest arbennig i ysgol gymharol fechan.

Rhestraf orchestion disgyblion unigol hefyd. Enillodd bachgen cystadleuaeth drwy Brydain ym 1958, enillodd bachgen arall ym 1970, dangoswyd llun bachgen arall ym 1978 mewn arddangosfa a drefnwyd gan 'Gyngor Eglwys' r Byd' o bum llun ar hugain wedi eu dewis o holl wledydd y byd. Dangoswyd llun o luniau dros y blynyddoedd yn y 'National Exhibition of Children's Art' ac mae dau lun mewn casgliad o luniau plant yn Rwsia, a dau lun mewn casgliad tebyg yn Illinois. I goroni'r cwbl enillodd Manon Evans wobwr gyntaf drwy Gymru a thlws hardd yn y cystadleuaeth 'Cofio Llywelyn ein Llyw Olaf' eleni.

Does dim amheuaeth felly y medr edrych yn ôl ar ei yrfa gyda balchder. Oherwydd hynawsedd ei natur fe fu yn hynod boblogaidd gyda'r disgyblion â'i gyd-athrawon a pharchwyd ef ganddynt ar hyd ei yrfa. Gobeithiwn felly – yn ddisgyblion ac athrawon – hir oes a phob hapusrwydd iddo ef a'i briod.

LLWYDDIANT ATHRAWES



Mrs Margaret Cynfi Griffiths o Ddeiniolen sy'n athrawes yn ysgol Brynrefail, Llanrug oedd prif lenor Eisteddfod Gwaun Gynfi. Enillodd dlws y gadair am ei gwaith ar gartrefi bro Deiniolen.



**NADOLIG
LLAWEN
A
BLWYDDYN
NEWYDD
DDA
I
CHWI**



PRIF LENOR BETHEL



leuan Williams o Fethel — prif lenor Eisteddfod y pentref — yn ystod seremoni cyflwyno tlws y gadair. Ei ysgrif ef ar y testun 'Siom' oedd cynnyrch llenyddol gorau'r Eisteddfod. (Rhagor o luniau ar dudalennau 5 ac 11)

ANRHEG NADOLIG I'R YSBYTY

Ychydig ddyddiau cyn yr Ŵyl bydd "Siôn Corn" a'i helpwyr yn galw yn gynnar yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor gydag anrheg o dros fil o bunnau iddynt gael prynu Bocs Gregory, sef cymorth anadlu – i'w ddefnyddio yn yr Adran Babanod.

Dyma uchafbwynt wythnosau o waith trefnu ac ymarfer i griw o gymwynaswyr lleol – ac yn arbennig felly i drefnydd cyffredinol y fenter, Dafydd Price, Tŷ Capel, Cwm-y-Glo.

Y 'fenter' i'w threfnu oedd fod Phil Newell, sy'n blisman yn Llanberis, Alan Parry o Gaernarfon ac aelod o dîm peldroed Llanberis a Dewi Salisbury o Rhos Isaf yn eu tro yn reidio tandem o Fangor i Lerpwl ac yn ôl. Paratôdd Dafydd nifer o ffurflenni noddai a gofalodd eu bod yn cael eu dosbarthu mewn digonedd o gwmpas y fro hon. Yna aethpwyd ati i drefnu'r daith mewn manylder a bu Phil, Alan a Dewi y reidwyr yn ymarfer ar ei chyfer am wythnosau. Fe dalodd y paratodau ar eu canfed, oherwydd daeth yr hogia yn ôl yn

flinedig ond yn ddiogel ac yn hapus iawn o fod wedi cwblhau'r daith.

Y gwaith nesa i'w drefnu gan Dafydd oedd casglu holl arian y noddwyr – gwaith oedd yn dal i fynd rhagddo wrth i'r rhifyn hwn o'r Eco fynd i'r wasg.

Mae Dafydd, sy'n Arweinydd Ieuencid yn Neiniolen, wedi bod yn ohebydd yr Eco yng Nghwm-y-glo ers rhai blynyddoedd. Mae hefyd yn aelod o bwyllgor Clwb Peldroed Llanberis gyda dyletswyddau arbennig i drefnu gweithgareddau codi arian i'w coffrau.

Dymuna pawb fu'n gysylltiedig â'r fenter ddiolch i drigolion bro'r Eco am eu caredigrwydd a'u haelioni – a hefyd am bob cefnogaeth a gafwyd i sicrhau y llwyddiant a gafwyd.



Ar ôl dychwelyd i Fangor — diwrnod y daith — y beicwyr, eu teuluoedd a rhai o staff yr ysbyty:

O'r chwith i'r dde: Mrs L. Newell, Mrs A. Salisbury, Dr R.H. Davies, o'i flaen — Dafydd Price, Phil Newell, Y Cyngorydd Francis Jones Maer Arfon, Nyrs K.E. Rosser, Alan Parry, Nyrs J. Jones, Mrs Francis Jones, Dewi Salisbury, Mrs V. Parry.

(Llun: J.G. Williams, Llanfairpwll)

COFIWCH

AM

**FFUG-EISTEDDFOD BRO'R ECO
YSGOL BRYNREFAIL, LLANRUG**

Nos Wener, Chwefror 4

Rhestr Testunau yn y rhifyn diwethaf o'r Eco

Ymholiadau: Miriam Hughes, 'Rallt Deg, Cwm-y-Glo.

(Llanberis 870416)

ECO'R WYDDFA

**RHIF 77
RHAGFYR 1982-
IONAWR 1983**

**Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon**

**Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru**

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisarwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug
Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn
Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BETWS GARMON: Mrs Brenda
Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO:

DEINIOL: Mrs Nancy Rowlands,
12 Pentre Helen (Llanberis 870267)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas, Tŷ'r
Ysgol (Llanberis 870220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg

CHWEFROR 3

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

IONAWR 25

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

MYNWENT BEER SHEBA

Annwyl Olygydd,

Pan ar wyliau yng ngwlad Canaan
yn ddiweddar aethom gyda ffrind i
fynwent Beer Sheba, oddeutu 50
milltir i'r de o Jerusalem i weld bedd
tad i gymydog a gollodd ei fywyd yn y
Rhyfel Mawr 1914-18. Wrth edrych
drwy lyfr a gyhoeddwyd gan y
Wladwriaeth sylwais ar yr enwau
canlynol o'r ardal yma:

**Evans Pte. Robert 265671 1st-6th Btn.
R.W.F. Killed in Action 6 Nov. 1917. Age
28. Husband of H. Evans of 3 Water
Street, Llanberis, Caerns.**

**Williams Lce. Cpl. Joseph 265519 "A"
Coy. 1st-6th Btn. R.W.F. Died of wounds,
received at Tel el Khuweilfeh 6 Nov.
1917. Age 21. Son of Griffith Owen
Williams and Mary A. Williams of
Derlwyn, Llanrug.**

Ceisiais gael llun o'r cerrig beddi
a'r fynwent ac os oes teuluoedd y
diweddar filwyr am fanylion pellach
buaswn yn falch iawn pe baent yn
cysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir,
Gruff Owen

Frondeg,
Rhiwlas.

Ffôn: Bangor 53749.

TAFLEGRAU 'CRUISE'

Annwyl Syr,

Cynhaliwyd Rali Heddwch
arbenig y Merched yn Greenham
Common dros y penwythnos diwethaf er
mwyn protestio yn erbyn lleoli 160 o
daflegau Cruise ym Mhrydain ym
1983. Hwyrach bod rhai o'ch
darllenwyr, fel y bwm i, yn ansicr eu
barn ar y mater hwn. Bellach, fel y
merched yn Greenham Common, 'rwyf
yn argyhoeddedig y buasai'r fath gam
yn cynyddu'n frawychus y perygl o ryfel
niwcliar.

Cyn i'r Unol Daleithiau gynhyrchu
taflegau Cruise 'roedd modd i'r Unol
Daleithiau a'r Undeb Sofietaidd
ganfod nesâd unrhyw daflegau
niwcliar. O'r herwydd ataliwyd y ddwy
ochr rhag ymosod gan y wybodaeth y
buasai dial yn sicr. Mae'n debyg bod
dadl o blaid yr egwyddor yr atalir
ymosodiadau gan sicrwydd y dial.

Mae taflegau Cruise yn dra
gwahanol. Mae'n wir y gellir eu canfod
yn nesáu pan gludir hwy gan
awyrennau, ond nid yw hyn yn wir am
daflegau Cruise a saethir o safleoedd
ar dir Ewrop. Oherwydd y llwybr isel a
gymerir ganddynt, nid oes modd i'r
Undeb Sofietaidd eu canfod yn dynesu
ar radar na'u gweld gyda'u lloerennau.
Nid yw'n syndod o gwbl fod y Rwsiaid
yn poeni am Cruise. Nid oes modd
iddynt anelu eu taflegau SS20 hwy
mor fanwl gywir ag yr anelir Cruise ac
nid yw'n anodd canfod yr SS20 yn
nesáu.

Os gosodir Cruise ar dir Ewrop bydd
N.A.T.O. mewn sefyllfa i gychwyn
rhyfel niwcliar. A oes unrhyw obaith
am heddwch yn y fath sefyllfa? Apeliad
ar i'ch darllenwyr ysgrifennu at eu
haelod seneddol os ydynt yn teimlo yr un
fath â mi ynglŷn â hyn.

(Cafwyd y ffeithiau ar gyfer y llythyr
hwn o ddarlith i'r Brifysgol Agored
gan Ddeon y Gyfadran
Wyddoniaeth.)

Yr eiddoch yn gywir,

Joan Fraser,
Dolgoed,
Ty'nycaeau,
Porthaethwy.

CAPEL HEBRON

Annwyl Syr,

Diolch o galon i amryw o gyfeillion
a ysgrifennodd ataf a hefyd fy ffonio i
ddatgan eu diddordeb a'u
parodrwydd i gymryd rhan mewn
unrhyw ymgyrch i geisio adfer hen
capel Hebron ar lethrau'r Wyddfa. Yn
sgîl yr ymateb hynod, gobeithiaf alw
cyfarfod cyhoeddus yn Llanberis yn y
gwanwyn i drafod y mater ac i
benderfynu pa gamrau allwn
gymryd, gan obeithio na wnaiff y
gaeaf lawer mwy o ddifrod i'r hen
adeilad.

Diolch am gefnogaeth Mrs Myra
Bryn Hughes a Mrs Enid Jones yn y
rhifyn diwethaf o'r 'Eco'. 'Does ond
gobeithio y bydd y rhai sydd wedi
addo cyfraniadau ariannol a'r rhai
sydd wedi mynegi gyfrannu trwy roi
o'u llafur — yn seiri meini ac yn y
blaen — yn cadw'r brwdfrydedd yn
fyw hyd y gwanwyn nesaf.

Yn y cyfamser, a oes rhywun yn
gwybod enw a chyfeiriad y brawd o
Lerpwl a brynodd y capel, a'r tŷ capel,
cyn sêl fawr y Faenol?

Yn gywir,
Rol Williams,

Ardwyn,
Waunfawr.

40 Rhesdai Afon,
Llanberis,
Caernarfon.

Annwyl Olygydd,

Wrth ddarllen erthygl Rol Williams
a llythrau eraill yn yr Eco a gweld
drosod fy hun gyflwr Hen Gapel
Hebron mor druenus. Wrth chwilio a
chwilota am Hanes y Capel Bach yma a
chofio pan oeddwn yn dreifio trên bach
yr Wyddfa flynyddoedd yn ôl mor dda
oedd cyflwr y Capel pan oedd y fyddin
yn edrych ar ei ôl.

Fe luniodd y diweddar gyfaill
annwyl, Mr Tom H. Williams, Y
Garreg Fawr, y Waunfawr benillion
yn Y Cymro am y capel yma.

Mae'r penillion yn fy meddiant a
buaswn yn falch iawn os buasech yn eu
cynnwys yn yr Eco.

Cledwyn Jones

Hebron

CAPEL HEBRON

Nid yw i'r llu ymwelwyr ddaw ar eu hynt
Ond hen adeilad moel diaddurn llwm
Fe ddwedodd prifardd am rai tebyg gynt,
A niwl y bannau arno'n pwyso'n drwm.

Nid nepell o'r ardderchog linell gul
Y saif yn friw i'r llygaid erbyn hyn,
'Does neb yn cyrchu iddo ar y Sul,
Amddifad yw'r hen gapel ar y bryn.

Bydd praid y mynydd ger ei lwydaidd fur,
Yn ceisio lloches rhag y straen a'r
gwres;

A'r trên yn tuchan heibio dan ei chur,
A'r heicwyr dan eu pynnau'n pasio'n
rhes.

Ond nid â cennad Duw o'r Llan islaw
Fel cynt i fyny drwy y ddrycin groch
Ac nid yw Hebron mwyach boed yn haul
neu law

Yn perthyn dim yn awr i Gapel Coch.

Hen deulu Rali, Foty a Chaenewydd Bach
A'r Helfa a Chae-egob droediai'n fyw —
A chyrchu gydag eraill yno'n iach,
I Hebron oedd bryd hynny'n dŷ i Dduw.

Mae pen yr Wyddfa'n tynnu'r dorf o hyd
A'r trenau bach yn llawn o ddor i ddor —
O Hebron yr hen dadau sydd yn fud,
Heb neb yn plygu i glodfori'r lôr.

Cwm Brwynog glywodd ddarpariadau'r
drin

A chyfoeth gynnu trwm y fyddin gref;
A cholodd Capel Hebron bach y gwin
A'r hen bileri a'i cynhaliai ef.

TOM H. WILLIAMS
Y GARREG FAWR
WAUNFAWR

CÔR MARTIN OWEN

Diolch i Mrs N. Hughes am anfon
llun o'r côr i'r Eco a hefyd am
sylwadau Mrs Owen gwraig y
diweddar Martin Owen.

Bwm yn aelod o'r côr am
flynyddoedd a chawsom amser difyr
yn eisteddfota a hefyd ymarfer yn
ysgol Deiniolen ddwywaith yr
wythnos.

Cof da gennyf am dacs Nedw yn
dod â hogiau Llanberis a Cwm-y-glo i
Ddeiniolen.

Mae llun o'r côr yn fy meddiant ac
mae un ar ddeg o'r côr yn fyw heddiw
hyd y medraf gofio, nid wyf yn
gwybod hynt y tri o Sir Fôr sydd yn y
llun.

Dyma enwau'r un ar ddeg:

William Oliver Jones; John D. Jones;
Ellis James Owen; John T. Price; Robert
Hughes; Ifor Williams; Hugh Williams;
David T. Jones; Evan Morris Williams;
Sam Parry; John Griffith.

Ifor Williams,
Gwelfryn,
Llanrug.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion
tuag at gostau cynhyrchu'r Eco,
£2.00 — Anwen Owen, Bontnewydd;
Mrs K. Griffith, 20 Hafan Elan,
Llanrug.
£1.00 — Di-enw, Tanycoed.

AR WERTH

Organ drydan newydd 'Siel'. Dau
"manual" efo pedalau. Pris £400.
(Mrs Strassen) — Ffôn Llanberis
870-774.

CYMYSGWR CONCRIT AR FENTHYG

£10 yr wythnos
£2.50 y dydd

HEFYD CLUDO
LLWYTHI YSGAFN
CLIRIO SAFLEOEDD,
DANFON TYWOD,
GRO A DEFNYDDIAU
ADEILADU ERAILL

ERIC GOVER

11 STRYD YR
WYDDFA

LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 872285
neu 871327

Cyfarchion y Tymor
i chwi oll

LLYTHYR AGORED

PERYGLON Y 'MARINAS'

Annwyl Gyd-Gymry,

Yn ddiweddar datgelwyd cynlluniau gan y 'Bwrdd Croeso' a chyrrff eraill i sefydlu cylch o 'farinas' o gwmpas arfordir Cymru, ar esgus hyrwyddo'r fasnach dwristiaeth. Gwerir miliynau o bunnau er mwyn denu perchnogion cychod pleser i'n broydd fesul mil, gan greu llond dwrn o swyddi nad oes unrhyw sicrwydd y'u rhoddir i bobl lleol: ond uwch o lawer na hynny yw pris y cynlluniau hyn, a ninnau, drigolion yr ardaloedd dan sylw, fydd yn ei dalu'n llawn. Dyma fo:

- i) Ffyniant economaidd. O ddibynnu ar gardd ansicr ac anwadal twristiaeth, llesteirir unrhyw ddatblygiad diwydiannol mwy sefydlog a pharhaus, ac fe barllysis yr awydd i geisio gwell ddyfodol.
- ii) Cartrefi'r fro. Mae'r farchnad dwristiaeth, yn enwedig gweithgareddau hamdden fel hwylio, yn dueddol iawn o chwyddo nifer tai haf ardal eang o gylch unrhyw "ddatblygiad". Cipia'r ymwelwyr cefnog y rai, ac wrth i'r prisiau fynd y tu hwnt i'r bobl lleol fe achosir prinder cartrefi llawer hwyach ar gyfer tai cyngor.
- iii) Masnach leol. Daw cwmnïau mawrion a masnachwyr estron i'r ardal er mwyn godro'r ymwelwyr a'r trigolion fel ei gilydd, gan ddisodli masnachwyr lleol llai cyfoethog yn llwyr. Mae natur

tymhorol y fasnach yn golygu cau siopau a chyfleusterau dros fisoedd y gaeaf, a'r tai haf yn golygu colli cwsmeriaeth teuluoedd sefydlog gydol y flwyddyn, yn ogystal â lleihad yn y defnydd ar westai lleol.

- iv) Y gymuned leol. Yn wyneb diffyg gwaith, cartrefi, a chysondeb safon bywyd gydol y flwyddyn, achosir diboblogi a dryllio'n cymunedau. Yn lle teuluoedd a phobl ifainc, daw mewnfudwyr i fyw ar gledrau'r ymwelwyr, a'r oeddrannus i ymddeol i'w tai haf.
- v) Ein diwylliant. Chwelir y gymuned, a gyda hi ei hiaith, sefydliadau, a phob agwedd arall ar ei diwylliant naturiol brodorol: dieithriaid fydd yn meddiannu addysg, gwleidyddiaeth, a chymdeithasau'r fro, er hybu'u diwylliant hwy.
- vi) Democratiaeth. Wrth i swyddogion anetholedig lunio'r cynllun, a'i osod ar yr ardal trwy rym cyfryngau torfol ac addewidion teg ond disylwedd. Twyllir cynghorwyr lleol, anwybyddir anghenion a dyheadau pobl y fro, ac fe'n sethrir islaw dymuniadau gweision y wladwriaeth a masnachwyr mawrion.

Dyma'r pris: y tlawd a'r difreintiedig caiff ei dalu, swyddogion diwyneb, cynghorwyr diegwyddor a datblygwyr barus fydd yn elwa. Y mae MUDIAD ADFER felly'n galw ar arweinwyr ein

THEATR BARA CAWS

AROLWG A GWAHODDIAD

Dechreuodd y flwyddyn gyda rhaglen Ysgolion Cynradd wedi ei seilio ar hanes Llywelyn ein Llyw Olaf - 'Diwrnod i'r Brenin' gan Valmai Jones, yna Rifiw newydd ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol - 'Pawb a'i Fys'. Treuliwyd tair wythnos yng Nghanolfan Noddfa, Caernarfon ym ymgymryd â phrosiect arbrolwg gyda'r plant. Ffilmwyd rhaglen gymuned ddiwethaf y cwmni sef 'Oes 'ma Bobol?' ar gyfer S4C, ac ar hyn o bryd 'rydym ar ganol taith Ysgolion Uwchradd. Mae'r rhaglen bresennol wedi ei seilio ar y nofel a enillodd wobwr Tir na n'Og eleni - 'Gaeaf y Cerrig' gan Gweneth Lilly, ac fe wnaed addasiad o'r llyfr gan Myrddin Jones.

Cyn y daw'r daith bresennol i ben Rhagfyr 7, fe fydd criw arall wedi dod ynghyd i ddechrau paratoi rhaglen gymuned nesaf y cwmni a gaiff ei pherfformio mewn neuaddau pentref ledled Gwynedd rhwng

cymunedau, y rhai yr ymddiriedwyd ein hardaloedd i'w gofal, i amddiffyn etifeddiaeth y genedl trwy drefnu gwrthwynebiad i'r cynlluniau hyn, a hynny ar unwaith, ac ar i'r Cymry eu cefnogi hyd eithaf ein gallu.


Howard Huws
(ar ran Mudiad Adfer)

26 Pen y Ffridd,
Penrhos,
Bangor.

Ionawr 17, a Chwefror 19. Mae'r actorion yn cynnwys Iola Gregory, Elli Haf, Sara Harris Davies, Valmai Jones, John Ogwen a Cefin Roberts, ac os y dymunwch inni berfformio yn eich hardal gellwch gysylltu â ni yn Y Coleg Normal, Bangor neu ffonio Bangor 55579.



Enw'r cynhyrchiad yw 'Arwres Gudd' - addasiad o'r nofel 'Gaeaf y Cerrig'. Ewnau'r actorion o'r chwith i'r dde: Wyn Bowen-Harries, Mari Gwilym, Derek Daniels, Carys Llewelyn a Dwynwen Berry. Llun: Derec Owen, Llanfairpwll.



BARGEN

Llenwch a phostiwch y ffurflen isod er mwyn bod yn ddarllenydd cyson o CURIAD.

Fe fyddwn yn anfon dau rifyn i chwi am ddim ar yr amod eich bod yn cytuno i dalu am y 6/12 rhifyn dilynol. Caniateir i chwi ganslo'r archeb ar unrhyw adeg cyn derbyn y trydydd rhifyn ac ni fydd arnoch unrhyw ddyled i ni.

Dychweler y ffurflen hon i:

Archeb Curiad, 13 St. John's Crescent, Treganna, Caerdydd. CF5 1NX.

D.S. Cadwn yr hawl i newid y taliadau uchod yn unol â chynnydd mewn costau.



CHWE RHIFYN: £3

DEUDDEG RHIFYN: £6

Dwi'n dymuno derbyn dau rifyn o CURIAD am ddim ac yna dwi'n dymuno talu am y 6/12 rhifyn dilynol.

ENW

CYFEIRIAD

Beth am archebu CURIAD fel anrheg i gyfaill neu berthynas?

Amgeuaf siec am y swm o ar y ddealltwriaeth y medraf dderbyn fy arian yn ôl ar unrhyw adeg cyn derbyn y trydydd rhifyn pe dymunwn ganslo'r archeb.

ARWYDDWYD

PAPUR BRO
CYMRU GYFAN

CURIAD

Y PAPUR A'I FYS
AR BYLS

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD
DDA

i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid oll
oddi wrth

GWILYM A MEIRWEN JONES

SWYDDFA'R POST

BETHEL

Ffôn: Y Felinheli 670 261

BWYDYDD, MELYSION, PAPURAU NEWYDD

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

**BILL ac EILEEN
GRIFFITHS**

**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**


Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da

Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

RITA A HARRY OWEN



BRYN DAIRY

BETHEL

Ffôn:
Y Felinheli **670487**

TAFARN GORS BACH

LLANDDEINIOLEN

Dymuna

Bob, Mair, Steve a Sharon
i'w holl gyfeillion a chwsmeriaid,
hen a newydd

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD RAGOROL



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD
DDA I CHWI OLL
ODDI WRTH BAWB YN




GAREJ MINFFORDD

BETHEL (T.R. & S. EVANS)
Ffôn: Y Felinheli **670451**

1983

Blwyddyn Newydd – Car Newydd!
METRO, TRIUMPH ACCLAIM
a chyn bo hir y MAESTRO
Dowch draw i'n gweld.



BETHEL

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Alys Jones, Stâd Eryri ar gael cyhoeddi dau lyfr o'i gwaith ar gyfer y Nadolig. Nofel antur i blant wedi ei lleoli ar Ynys Môn ydi "Ysbrydion y Môr" tra ceir storïau byrion am eneth o'r enw Non yn yr ail lyfr, "Storïau Non". Roedd brolio mawr ar y ddau lyfr ar raglen Hywel Gwynfryn un bore yr wythnos diwethaf. Y cyhoeddwy'r yw Gwasg Tŷ ar y Graig a'r prisiau yw £2.25 am Ysbrydion y Môr a £1.25 am Storïau Non.

CARNIFAL 1983 - Nos Lun, Rhagfyr 6 daeth ychydig o'r ffyddloniaid ynghyd i Gyfarfod Cyhoeddus yn y Neuadd i gychwyn ar drefniadau Carnifal 1983. Dewiswyd Mrs Rhian Birkett yn Ysgrifenyddes a Mrs Val Jones yn Is-ysgrifenyddes. Dewiswyd Mrs Ann Hughes yn Drysorydd a Mrs Diane Hughes yn Is-drysorydd. Mr Geraint Elis fydd y Llywydd.

Penderfynwyd dewis pedair hogan o ddosbarth Mr Ellis R. Jones fel Brenhines a gosgordd a gwahoddir rhai sydd â diddordeb roi eu henwau i Mrs Birkett cyn diwedd Ionawr. Bydd y Frenhines a'i gosgordd yn cael ei dewis mewn Noson Goffi yn y Neuadd nos Wener, Chwefror 4. Cynhelir y pwyllgor nesaf yn y Neuadd nos Lun, Ionawr 10 a gwahoddir unrhyw un sydd â diddordeb draw i'r pwyllgor.

LLONGYFARCHIADAU i John a Julia Pritchard, Fron Helyg ar enedigaeth merch fach.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Ivor Jones, Awel y Grug a oedd yn dathlu eu priodas aur ddydd Mercher, Rhagfyr 1. Dymunir blynyddoedd lawer o fywyd hapus i'r ddau gyda'i gilydd eto.

YSGOL FEITHRIN - Cafwyd bore Mins Pies a Chân llwyddiannus iawn yn y Neuadd bore lau, Rhagfyr 2.

Gwnaed elw o £34. Diolch yn fawr am bob cefnogaeth.

MERCHED Y WAWR - Aeth dros 50 o'r gangen i Westy'r Victoria, Llanberis nos Fercher Rhagfyr 8 am eu cinio Nadolig. Daeth nifer o ardal Llwyndyrus yno i ddiddanu a chafwyd noson hapus a chartrefol iawn yn eu mysg.

Nos Fawrth y 14eg aeth tua 20 o'r merched i Westy'r Gwynedd i roi adloniant yn Swper Clwb Bro Bethel.

RHIFYN NESA'R ECO - Bydd y rhifyn nesaf o'r Eco yn cael ei gasglu yn y Neuadd ym Methel nos lau, Chwefror 3. Gobeithio y daw criw da draw i wneud y gwaith.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y gangen yn yr ysgol nos Fercher, Rhagfyr 1 dan lywyddiaeth Mrs Gwyneth Williams, Llain-yr-ardd. Croesawyd Mrs Treen o Gaernarfon a Mrs Vera Hughes, V.C.O. a Mrs Evans, Bethesda fel cyfrifwyr y pleidleisiau a diolchwyd iddynt gan y llywydd am eu gwaith.

Etholwyd swyddogion am y flwyddyn nesaf - Llywydd: Mrs Ellen Jones, Awel-y-grug; Is-lywydd: Mrs Joyce Jones, Y Garn, Llanrug; Trysorydd: Mrs Bessie Ellis, 15 Cremlyn; Ysgrifennydd: Mrs Annie E. Williams, Tŷ Newydd. Pwyllgor - Mrs Joan Foulkes, Tyddyn Gwndwn; Mrs Sally Hughes, 35 Bro Rhos; Mrs Betty Hughes, Twll Clawdd, Llanrug; Mrs Betty Jones, Pen Buarth; Mrs Mair Parry, Ystorfa Llanrug; Mrs Mary G. Williams, Gwylfa; Mrs Gwyneth Williams, Llain-yr-ardd.

Trefnwyd rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf nos Wener, Rhagfyr 3. Rhoddwyd y te gan Mrs Olwen Evans, Parciau Rhos a Mrs Mary Williams, Bryn Pistyll a diolchwyd iddynt gan Mrs Gwyneth Williams, Llain-yr-Ardd.



Lynn Roberts gyda chwpan am ganu'r piano (dan 9 oed).



Angharad Price oedd yn fuddugol am ganu'r piano (dan 12 oed).

LLUNIAU O'R EISTEDDFOD

Rhagor o luniau ar dudalen 11



Y rhai oedd yn cystadlu ar Adrodd dan 6 oed.



Dyma gantorion dawnus Bethel oedd yn cystadlu ar Ganu dan 4 oed.

CYFARCHION BETHEL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Wil a Val Guy, Donna a Sheila

TREFLYN STORES BETHEL

Ffôn: Y Felinheli 670237

Stoc helaeth o Ddillad Plant

- * Cadwch eich coesau'n gynnes efo
LEGWARMERS (£1.70) ac
ANKLEWARMERS (95c)
- * Cofiwch hefyd ein dewis ardderchog
arferol o anrhegion Nadolig,
Teganau, Diodydd, Melysion, Dafedd
a Bwydydd.
- * SNWCER! Dewch yma am eich sialc,
tips, ciws - RILEY a byrddau hefyd os
dymunwch.

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

HELEN WILLIAMS

BRYN DAIRY Tŷ'R YSGOL BETHEL

Ffôn: Y FELINHELI 670417



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi
wrth

I. MORRIS CYFLENWYR PORTHIAN



ac

DALGETY SPILLERS

RHM

Y FACHELL
LLANDDEINIOLEN
Ffôn: Y FELINHELI 670439

SIBRYDION O'R YSGOLION

LLUNIAU O'R EISTEDDFOD



Y parti pop buddugol — 'Genod yr Wyddfa'.



Sgets fuddugol Elidir — Carys Griffiths, Iwan Roberts, Dewi Lewis a Dylan Williams.

Y Tŷ BUDDUGOL EILIAN



Martin Jones a Rhian Owen — Capteiniaid Eilian — y tŷ buddugol.

ARWEINYDDION CORAU A PHARTÏON BUDDUGOL



O'r chwith i'r dde: Lynn Jones (Gwyrfa), Côr Deulais, Margaret Roberts (Elidir), Cyd-adrodd a Pharti Bechgyn, Rhian Owen (Eilian), Cerdd Dant a Chwareugerdd.

SCIPIAU ARFON

YMGYMERIR Â CHLIRIO SBWRIEL O BOB MATH
SBWRIEL ADEILADU, CARTREF A
DIWYDIANNOL
TELERAU RHESYMOL

Ffôn:

Dydd Caernarfon 5670
Llanfairfechan 680 329

Gyda'r Nos
Llanberis 872236



ENILLWYR Y MWYAF O FARCIAU



Gwyn Meirion Roberts (Gwyrfa), a Marina Bryn Roberts (Eryri).

ARHOLIADAU:

Y mis hwn, y mae dosbarthiadau 1 a 2 wedi bod yn ddiwyd iawn gyda'u harholiadau. Ar ôl gweithio'n galed iawn, cânt yn awr fwynhau gwyliau'r Nadolig.

PARTI NADOLIG Y CHWECHED:

Hoffai'r chweched dosbarth ddiolch yn fawr iawn i Alison Barnes a Sian Gibson am drefnu eu parti Nadolig eleni. Cafwyd bwyd a disgo yng Ngwesty Glynllifon, Benllech, a mwynhaodd pawb eu hunain. Diolch yn fawr iawn genod!

Y CHWECHED YN CYNNAL PARTI I BLANT PENDALAR:

Ddydd Gwener, Rhagfyr 10 daeth plant Ysgol Pendalar i'w Parti Nadolig yn yr Ysgol, yng nghwmni'r 6ed dosbarth. Cafwyd ychydig o ganu, digon o fwyd, yn ogystal ag ymweliad gan Siôn Corn oedd yn dosbarthu'r anrhegion. Mwynhaodd pawb eu hunain yn fawr iawn.

DISGO:

Ddechrau'r mis cynhaliwyd disgo yn yr ysgol i bawb. Daeth nifer yno a

chafwyd noson dda o ddawnsio. Gwanethpwyd elw o £130 tuag at Gronfa'r Ysgol.

GWASANAETH CAROLAU:

Nos Lun, Rhagfyr 20 bydd gwasanaeth carolau'n cael ei gynnal yn yr ysgol am 7.00 o'r gloch. Mae croeso cynnes i bawb ddod.

LLONGYFARCHIADAU:

Carem longyfarch Mrs Margaret Cynfi Griffiths, o Ddeiniolen, am ennill Cadair Eisteddfod Bentref Deiniolen ar ddechrau'r mis hwn. Mae Mrs Griffiths yn athrawes Gymraeg ac Ysgrythur yn yr ysgol.

PÊL-DROED:

Dros y penwythnos cyntaf o'r mis bu Kevin Jones o Ddinorwig yn chwarae dwy gêm i dîm Gogledd Cymru (Dan 15eg oed) yng Nghastell Nedd.

Rhagfyr 3ydd ar gae Llanrug fe chwaraeodd Stuart Williams i dîm Ysgolion Arfon yn erbyn Ysgolion Telford. Er i fechgyn Arfon ennill y gêm o 4 gôl i 2 maent allan o'r gystadleuaeth oherwydd iddynt golli'r gêm gyntaf yn Nhelford 4-0.

MRS MARY HUGHES:

Ddiwedd y tymor hwn fe fydd Mrs Mary Hughes yn ein gadael i fod yn Ddirprwy Bennaeth yn Ysgol Tryfan Bangor. Daeth yma ym 1977 fel athrawes Saesneg a bu'n hynod lwyddiannus yn y gwaith gan ennill canlyniadau arholiad rhagorol ac ennyn brwdfrydedd ei disgyblion. Diolchwn iddi hefyd am ei chyfraniad gwerthfawr i sawl agwedd o fywyd yr Ysgol ond yn arbennig i'r Urdd ac i'r Eisteddfod. Llongyfarchwn hi ar ei dyrchafiad a dymunwn bob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd.

W.E. THOMAS
PRIFATHRO

NADOLIG LLAWEN:

Dymuna pawb sy'n gysylltiedig â'r 'Sibrydion' Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

YM MHASANT LLYWELYN



Andrew Evans, Dylan Greet, Malcolm Price, Meirion Williams, Iestyn Jones a Meirion Jones o Ysgol Brynrefail, yn actio yn y pasiant. (Llun drwy garedigrwydd Y Goriad, Papur Bro Bangor a'r Cylch.)

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Y TYWYDD

Yr ydym ar hyd ein hoes yn siarad mwy am y tywydd nag am unrhyw destun arall. Am gyfiawnder yr arferai'r Iddewon siarad, ond am y tywydd y siaradwn ni. Clywch! -

Cawn fyd gwell ar hyn bellach - daw yr haf
Nid du oer hin mwyach:
Wele'r gôg, pwy'n fywiocach?
Crwydro bu'r creadur bach.
OWEN DINORWIG

Arferai pobl ddweud er stalwm mai tywydd iach ydyw tywydd rhew ac eira, neu wynt sych, oer o'r gogledd rhewllyd a'r dwyrain deifiol. Ond nid felly yr arferai fy nhad gredu. Beth yw eich barn chwi tybed?

Y mae rhew ac eira yn dwyn afiechydon i'w canlyn. Y glaw o'r de-orllewin sy'n puro'r awyr ac yn dwad ag iechyd i'r claf!

Wel, felly cefais fy nysgu beth bynnag.

Wele, yntau glaw'r Atlantig - gallodd
Ein gwella heb ffisig:
Poerodd i ladd pob perig
A'r fflw a'th glodd, drodd o'th drig.
GLAN RHYDDALLT

Un o drysorau pennaf pob un ohonom ydyw meddu iechyd da yn y meddwl a'r corff. Dyna un o'r gwersi cyntaf a ddysgais i yn y Normal ym Mangor. Rwy'n cofio'r Prifathro Harries yn dweud "A sound mind in a sound body." Ac aeth ymlaen i ddweud gymaint o ddylanwad oedd gan y meddwl ar y corff. Hynaf yn y byd yr wyf fi yn mynd mwyaf o wir wyf yn weld yn y syniad fod gan y meddwl gymaint o ddylanwad ar y corff.

Y mae bwyta'n ddoeth yn chwarae rhan mawr mewn cadw'r teulu'n iach ac yn gryf i wrthwynebu afiechydon.

Dysgais hefyd fod raid i bawb gael dŵr glân a diolch fod gennym ddigon ohono ynte.

Rhaid hefyd gael digon o gynhesrwydd i mewn yn y corff trwy fwyta bwyd da fel y soniais eisoes a rhaid cael digon o ddillad cynnes i gadw'r corff yn gynnes oddi allan os ydym am gadw'n iach.

"O na byddai'n haf o hyd
Gaeaf mewn tragwyddol grud:
Neb yn ofni tywydd garw
Neb mewn poen a blinder chwerw,
Neb yn cwyno, neb yn marw,
O na byddai'n haf o hyd."

Cofiaf am rywun gartref yn wael o dan y fflw. 'Doedd dim posib iddo fynd gam o'r tŷ oherwydd y rhew a'r eira ond fe drodd y tywydd a chafwyd glaw. Daeth y claf yn well a chafodd fynd allan i fendio.

Mi hoffwn gael barn rhywun profiadol ar y cwestiwn beth sy'n lladd pobol - rhew ac eira ac oerni - ynte' glaw? Pwy etyb?

Y MEDDWL A'R LLAW

Un arall o wersi y Normal a gofiais ar hyd fy oes ydyw hon sef fod y llaw yn ddrws i'r meddwl - "The hand is the gateway to the brain." Mae syniad y gŵr doeth yn gywir reit siŵr.

Bu amser pan roddid mwy o sylw i'r pen nag i'r llaw, i lyfrau yn hytrach nag i arfau gweithio. Ond y mae pethau wedi newid erbyn hyn. Ar un ystyr y mae crefft yn rhagori llawer ar y wyddor.

Syniad rhai ydyw hyn sef fod y llaw yn blaenori'r meddwl. Rhaid gwneud rhywbeth gyda'r llaw cyn y gall y meddwl weld ei ogoniant.

Cawn y syniad yma yn Genesis yn hanes y creu - pennod gyntaf - adnod 31. "A gwelodd Duw yr hyn oll a wnaethai, ac wele da iawn ydoedd." Y gamp fawr ydyw disgyblu'r llaw a'r meddwl i gyd-rodio. Y llaw sy'n arwain y meddwl ac yn awgrymu pethau iddo na fuasai byth wedi eu canfod ar wahân.

Erbyn hyn y mae'r byd yn sylweddoli mwy heddiw nag erioed fod angen gweithwyr celfydd - y "skilled men".

Bu amser pan fodlonai'r ysgolion ar wneud plant yn ddysgedig yn y tair R (reading, writing, arithmetic). Cynhyrchwyd miloedd o bobl ddysgedig a'r rhan fwyaf ohonynt yn anghelfydd.

Y mae'r byd wedi deffro. Efallai mai'r Eidal ydyw'r wlad a aeth uchaf mewn cywreinaeth. Bu'r mynor a geir yn ei brynau yn un fantais iddi i fagu cerflunwyr ac i hudo dynion o bob parth yno i weithio ar y mynor.

Talodd Americanwr yn ddiweddar filoedd o bunnau am waith hen arlunydd enwog. Talu yr oedd am y meddwl oedd wedi cynhyrchu'r darlun - mewn geiriau craill, yr oedd gwaith llaw yr arlunydd yn agoriad i feddwl yr arlunydd ac yn costio miloedd o bunnau.

Mi orffennwn gyda'r tywydd fel yr oeddym wedi dechrau:

A ddaw'r Haf yn ei dro - a miwsig hoff -
Amwisg hardd amdano:
Ei odrau aur dros fryniau'r fro
A'i lwyn o ddail yn ei ddwylo.
IOLO TREFALDWYN

Caiff fy nhad gloi heddiw:

Tlws yw pefr llygaid Chwefror, - yna
Mawrth
Gawn am wyrthiau'n rhagor:
Mor fwyn fydd gwanwyn a'i gôr,
Daw yma yn ei dymor.
GLAN RHYDDALLT

CYWIRO: Llithrodd un camgymeriad yn hanes "Y Ferch o Gefn Ydfa" y mis diwethaf. Yn y flwyddyn 1741 y bu farw Wil Hopcyn awdur y gân Bugeilio'r Gwenith Gwyn.

Cewch hanes carwriaeth a phriodas Ann gydag Anthony Maddox y mis nesaf; gyda llawer o fanylion diddorol eraill.

Diolch i Mrs Mair Jones, Llyfrgell Newydd, Caernarfon am y manylion.

M.L.I.W.

NOFEL NEWYDD



Mae yn y siopau ar hyn o bryd, nofel ddiweddaraf John Ellis Williams o Bontrhythallt, yn dwyn y teitl WRTH DDYCHWEL. Mae'n olrhain hanes teulu a ddaeth yn ôl i drigo i'r Gymru gyfoes ar ôl blynyddoedd o alltud.

Talfyriad ydyw o waith a ysgrifennodd yr awdur yn wreiddiol yn Saesneg, a hi yw ei seithfed nofel.

Mae hefyd wedi ysgrifennu nifer o sgriptiau i blant ar gyfer y teledu, ac mae peth o'i waith yn ymddangos yn llyfr blwydd SBONCYN y tro yma.

Mae John E. Williams yn adnabyddus i ddarllenwyr yr ECO fel Y GWALCH, fydd o dro i dro yn ysgrifennu darnau ysgafn mewn tafodiaith am y plwyf a'i ddefodau yng nghyfnod ei febyd.

Mae Cwmni Annibynnol Burum, Penygroes, yn bwriadu ffilmio cyfres o ddramâu ysgafn o'i eiddo hefyd, ar gyfer S4C.

Mae ganddo un mab, Siôn Rees Williams, sydd yn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail.

O BANTRI BETH



Diolch i Mrs Rhydwen Puw am resait y gacen yma. Defnyddir seidar ynddi a chan fod mwy o ddioddydd o gwmpas ein tai y tymor yma na'r un, teimlais ei bod hi'n gymwys ei chynnwys y mis yma.

Cacen Tŷ Fferm

12 owns o flawd codi
6 owns o siwgr demerara
6 owns o fargarin
10 owns o ffrwythau cymysg
Croen oren neu lemon wedi ei ratio
1 ŵy mawr wedi ei guro
chwarter peint o seidar
2 lwy fwrdd o farmaled
pinsiad o halen

Rhwbiwch y margarin i mewn i'r blawd a'r halen. Ychwanegwch y ffrwyth a'r croen. Gwnegwch dwll yn y canol ac ychwanegu'r ŵy, seidar a'r marmaled a'u cymysgu'n dda.

Rhowch y gymysgedd i mewn i dun sgwâr 7 modfedd a'i goginio fel a ganlyn:

350°F am awr

300°F am awr

Dyma'r adeg o'r flwyddyn y tueddir wahodd ffrindiau am swper i'r tŷ. Dyma resait hawdd sy'n eich cadw o ben y stof a'ch rhyddhau i fwynhau cwmni'ch ffrindiau.

Stêc mewn parsel

Digon o stêc i'r nifer o bobl a wahoddwyd
halen
madarch
digon o ffoil i lapio bob stêc
garlleg
tomatos
margarin neu fenyn

Irwch y ffoil efo margarin. Rhowch y stêc arni. Cymysgwch y garlleg a'r halen a'i roi ar y stêc. Torrwch y madarch a'r tomatos yn sleisiau a'u rhoi ar ben y stêc. Ychwanegwch smotiau o fargarin a chau'r parsel yn dynn.

Coginiwch mewn popty Nwy 4 am dri chwarter awr a rhowch y parseli ar y platiau i'ch gwesteion eu hagog. Gellir ei fwyta efo tatws yn eu crwyn a salad.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll oddi wrth



**BECWS
DEINIOLLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS



Beth glywir o
**LWYNCOED
CWM-Y-GLO?**

Ffôn: Llanberis 870563

Na, nid tylluanod ond...

Dymuniadau gorau am Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb ym musnes llefrith

EIRWYN A SYLVIA WILLIAMS

i gwsmeriaid hen a newydd.

Diolch am eich cefnogaeth gydol 1982

Y GAREJ YN CAEL EI HAILADEILADU'N LLWYR GAN
YCHWANEGU SIOP FAWR



GWALIA GARAGE

PERCHENOGION
H.G. & J.S., H.S. & J.S. EVANS
CAEATHRO



Ffôn:
CAERNARFON 3096

WAUNFAWR

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR – Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Tachwedd a dynnwyd mewn noson o ddramâu wedi ei threfnu gan y gangen leol o'r Urdd ar Dachwedd 24 1982:

1af: £40 – Mr W. Lloyd Hughes, Gwastadfaes, Rhif 9; 2il: £25 – Mr a Mrs Jones, Tanywaen, Rhif 25; 3ydd: £10 – Mary Hughes, 11 Bryn Golau, Rhif 182.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod mis Rhagfyr o'r Sefydliad yn Festri Capel Croesyaun nos lau, Rhagfyr 2. Croesawodd Mrs C.A. Jones, y llywydd, yr aelodau i'r man cyfarfod newydd, a chroesawodd Mrs Carol Hughes, Mrs Ild Williams a Mrs Rosemary Bracegirdle fel ymwelwyr i'r cyfarfod.

Darllenwyd y llythyr misol a chofnodion y cyfarfod diwethaf. Cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mrs Eileen Jackson, Plas y Deri, gyda sleidiau lliwgar ar ei hymweliad â mynyddoedd yr Himalayas.

Diolchodd Mrs Parry Williams iddi ar ran yr aelodau. Enillodd Mrs Bet Hughes y raffl a roddwyd gan Miss M. Roberts. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos lau, Ionawr 6 pryd y bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal gan aelodau'r Sefydliad.

MERCHED Y WAWR – Tachwedd 25 aeth yr aelodau i Westy'r Foelas, Llanrug am eu cinio Nadolig blynyddol. Roedd y bwyd yn fendigedig a chafwyd noson ddifyr dros ben gyda'r gwahanol aelodau yn adrodd hanesion trwstan a ddigwyddodd iddynt – rhai ohonynt yn ddigri dros ben!

Rhodddwyd y raffl gan Mrs Llinos Cadwaladr a'r enillwyr oedd Mrs Morris Elfryn a Mrs J. Awstin Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ionawr 27

pryd y ceir sgwrs a sleidiau gan Mrs Mary Vaughan Jones ar ei thaith i Awstralia.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs W.T. Owen a'r teulu, 18 Tref Eilian, ddiolch yn gynnes iawn i'r teulu cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd tuag at Bill yn ystod ei arhosiad yn ysbyty Môn ac Arfon. Diolch i'r meddygon a staff yr ysbyty. Diolch hefyd i'r meddyg teulu. Diolch yn fawr iawn i bawb.

CYDYMDEIMLWN yn fawr iawn â Mr Arthur Griffith, Ann a Nesta, Eirianallt ar golli priod a mam, ac hefyd â Mr T.H. Williams, Coed Gwydryn ar golli chwaer.

Estynnwn ein cydymdeimlad at Mr Emlyn Davies, Bodwyn ar golli ei chwaer Miss Annie Davies, ac â Mr Dave Jackson, Tŷ Ni ar golli ei dad. Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r ddiweddar Miss M. Pritchard, Tref Eilian.

ADREF O'R YSBYTY – Da yw gweld bod Mrs D. Griffith, 11 Bryn Golau, Mr David Parry, 4 Bro Waun, Mrs M.L. Owen, Bro Waun a Mr a Mrs Idris Humphreys, Arwel yn gwella ar ôl eu harhosiad yn yr ysbyty.

Gobeithiwn fod Mr Goronwy Jones, Treflys yn gwella yn ysbyty Bryn Seiont. Ein cofion ato.

Drwg oedd clywed am anffawd Meirion Wyn Jones, Crud yr Awel. Dymuwn lwyr adferiad buan iawn iddo.

LLONGYFARCHIADAU i Martin Eaglestone, Tremallt ar ei briodas â Jenny o Nebo; ac i Valerie Lewis, Ael y Bryn ar ei phriodas â Glyn Jones o'r Groeslon.

I Lynda Jones, Crud yr Awel, ar ei dyweddiad â Gareth o'r Felinheli; ac i Wendy Griffith, Tref Eilian ar ei dyweddiad â Gary o Gaernarfon.

Llongyfarchiadau hefyd i Eurig Wyn, Y Frenni ar ei lwyddiant yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen, Bethesda drwy ennill y Fedal Ryddiaith.

Cyfarchion yr Ŵyl
oddi wrth
JONES & OWEN



Bara Cartra
Brown, gwyn a brith
Pastai a theisennau
O'r popty ddaw yn syth
Ffôn: Waunfawr 239

Nadolig Llawn

a
Blwyddyn Newydd Dda
i'w cyfeillion a'u cwsmeriaid
oddi wrth

H.M. ac E. GRIFFITH

Llythyrdy
WAUNFAWR

Bwydydd, Ffrwythau,
Papurau newydd a
Llysiau Ffres
Ffôn: Waunfawr 651

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
i chi oll oddi wrth
LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR

AR AGOR
9-7pm
(9-5pm Sadwrn)

AR GAU
SUL,
MERCHER.

Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

GWLAU SENGL O £39 I FYNY
GWLAU DWBL O £75 I FYNY

DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
– ALLWCH CHI Fforddio Prynu o Batrymau?



WAUNFAWR (parhad)

Dymuniadau gorau i Rob Jones, Tan y Fron, a Norman Williams, Llidiart Wen. Mae'r ddau yn rhoi'r gorau i'w swyddi presennol ddiwedd y flwyddyn ac yn dechrau ar fenter newydd ym mis Ionawr, Rob yn agor Swyddfa Yswiriant ym Mhenygroes a Norman yn canolbwyntio ar ei ddawn o ysgrifennu. Lwc dda iddynt.

CLWB 100 – Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am y ddau fis, Tachwedd a Rhagfyr:

Tachwedd – 1af, Mr. T. Griffiths, Ty'n yr Onnen, 2il, Mrs K. Hughes, Llys Meredydd, 3ydd, Mrs M.B. Davies, Bryn Eithin. Rhagfyr – 1af, Mr John Ellis, Glyn Awel, 2il, Mr Sion Prys Jones, Penrhos, 3ydd, Mrs Mwynwen Jones, Tref Eilian.



**Cyfarchion
Waunfawr**



NADOLIG YN Y WYRCWS

(Rhagor o atgofion Mrs K. Hughes, Y Waunfawr)

YN YSTOD y dauddegau roedd holl ysbytai'r wlad ar gardod, ac yr oedd yn rhaid i bawb dalu am y gwelyau ac am driniaeth. Yn ystod y cyfnod hwnnw, penderfynodd Cyngor Sir Surrey osod treth o 2 geiniog yn y bunt er mwyn cyflogi tuag ugain o nyrsus a bydwagedd.

Rhyw bythefnos cyn y Nadolig aeth deg ar hugain o nyrsus Wyrwys Redhill ar streic, ac anfonwyd ugain ohonom yno i wneud eu gwaith. Wyrwys 'go iawn' oedd un Redhill; rhai o'r bobl oedd yno wedi eu geni yno, ac wedi byw yno gydol eu hoes. Cafodd dwy ohonom ein rhoi mewn gofal o ward dynion yn ystod y nos –

ugain o ddynion yno, a'r ddwy ohonom braidd yn ofnus.

Roedd y bwyd yn ddifrifol. Uwd yn llawn o lympiâu i frecwast, a bara weithiau. Darn o dost dro arall, a rhai yn byw ar fara a saim nos a dydd. Roedd pawb yn edrych ymlaen am ginio Dolig, er ein bod i'w gael ddiwrnod cyn y Nadolig. Cawsom rybudd i beidio mynd i'r gwely (ar ôl gweithio'r nos) cyn cinio. Doedd neb yn siŵr beth i'w ddisgwyl i ginio, ond cawsom sioc ar ôl cyrraedd yr ystafell fwyta – torth, margarin a lwmp o gorn biff ar blât pawb!

Doedd gan yr un ohonom hawl i fynd allan o'r Wyrwys ar ddydd Nadolig, ond mentrodd un nyrs drwy'r ffenestr i anfon cerdyn pen-blwydd i'w mam. Pan ddaeth yn ôl dywedodd fod siop chips ar agor wrth ymyl y post. Cododd hynny chwant bwyd ar bawb, ond sut roedd posibl dod â'r chips yn ôl i'r Wyrwys heb i'r matron ein dal? Y porter oedd yr unig un â siawns o'n helpu, ond roedd hwnnw ofn mentro rhag iddo golli ei waith, a gwaith mor brîn y dyddiau hynny. Doedd y porter ddim yn gweithio rhwng 7 a 9 o'r gloch y noson honno, a dywedodd y byddai'n rhoi benthyg ei ddillad i ni er mwyn i un ohonom fedru sleifio allan heb i neb ein hadnabod. Tynnu enwau allan o focs i benderfynu pwy fyddai'n gwisgo fel dyn a mentro i nôl y chips. A fi gafodd y "faint"! Roedd y porter wedi dweud nad oedd angen bod ofn gormod oherwydd fod y matron a'r ddwy 'sister' yn feddw yn eu hystafell.

Cawsom wledd o 'chips' y nos Nadolig honno! Roeddem wedi penderfynu cadw'r dorth a'r margarin i frecwast, gan na cawsom frechdan iawn ers pythefnos, ond fore drannoeth roedd y bara wedi diflannu ac uwd yn ôl yn ei le. Gwylltiodd pawb yn gacwlm, a mynd â'r uwd a'r lympiâu i'r matron, ac yna pacio i fynd o'r wyrwys.

Roedd wedi bwrw eira'n drwm ac yn rhew, a ninnau â dros 7 milltir o ffordd i gerdded yn ôl i'n canolfan. Dwy geiniog oedd gennym i'w gwario a dim cyflog tan y flwyddyn newydd. Wedi cerdded rhai milltiroedd daeth carafan sipsi heibio, ac yna un arall yn ei dilyn. Cawsom ein cario ganddynt, ond heb damaid o fwyd na diod.


Wedi cyrraedd ein canolfan, cafodd dwy ohonom gynnig fynd i nyrsio Syr Robert Mossley. Roedd y frech wen yn dew drwy'r wlad ar y pryd, ac yr oedd y cynnig yn swnio'n nefoedd o'i gymharu â'r wyrwys, oherwydd roedd sôn fod gan Syr Robert bymtheg o forynion a butler a valet. Roedd y ddwy ohonom yn disgwyl lle da a digon o gwmni, ond welson ni neb ond yr hen syr am dair wythnos gron.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

PEIRIANWAITH AMAETHYDDOL Y WAUN
(Waun Agricultural Engineering)

Owen Owen

Ffôn: WAUNFAWR 253



- Offer amaethyddol o bob math
- Haearn addurn ar gyfer y tŷ

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda !

**Cyfarchion yr Ŵyl
oddi wrth
JONES & OWEN**



Bara Cartra
Brown, gwyn a brith
Pastai a theisennau
O'r popty ddaw yn syth
Ffôn: Waunfawr 239

EVAN DAVIES

Gwerthwr Glo



Ffôn: WAUNFAWR 341

**NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD GYNNES
I'N CWSMERIAID I GYD !**

**NADOLIG LLAWEN
a BLWYDDYN NEWYDD
DDA
oddi wrth bawb
ym**

**MODURDY
Whiteways
WAUNFAWR**

BYSIAU I'W LLOGI

Ffôn: Waunfawr 226

**Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth**

**SMITHY
GARAGE**

(PERCHENNOG W.M. CATT)

WAUNFAWR

Ffôn: WAUNFAWR 518

**Gwerthwyr, Peirianwyr
ac Atgyweiriwyr Ceir**

**Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i'n cwsmeriaid oll
oddi wrth**

**T.A.Thomas
Ltd.**

(ADEILADWYR)

STORDY Tŷ NEWYDD

**BWYDYDD, MELYSION,
FFRWYTHAU A
PHAPURAU NEWYDD**

Ffôn: Waunfawr 276

LLYN HEDDYCHOL, TALAITH EFROG NEWYDD, UNOL DALEITHIAU AMERICA

BETH wnaech chi wrth weld arth ddu yn crwydro heibio drws y ffyrnt. Cerddodd un drwy ardd y tŷ yma, y gaeaf diwethaf, yng nghanol storm o eira. Cymydog oedd yn adrodd y stori, ac er eu bod yn anifeiliaid swil, lle mae dyn yn y cwestiwn, nid oedd y bobl yn synnu, oherwydd yma, mae cymaint o goed o amgylch pob tŷ. Cadw i mewn wnaeth pawb, a rhybuddio'i gilydd ar y ffôn. Maen nhw'n brofiadol, er mai digwyddiad achlysurol ydy hyn.

Mae cyfeillion i ni yn cael eu poeni llawer mwy gan 'porcupines'. Trigant rhyw filltir o'r pentre mewn lle braidd yn anghysbell, ac nid yw'r anifail yma, fel y darganfuodd pobl Bae Colwyn, yn parchu neb na dim. Gan fod dau blentyn ein ffrindiau o dan bump oed, maen nhw ar bigau'r drain bob tro maen nhw allan yn chwarae, o gwmpas y tŷ. Does dim rhyfedd fod cymaint yn cadw Huskies, Alsations ac Ayrdales. Mae cŵn mawr yn werth eu lwfans.

Mae gwiwerod llwyd fel y rhain o gwmpas y tŷ 'ma, ac yn hynod o ddof, a chadwant o gyrraedd dyn a chŵn, ond dim ond prin allan o gyrraedd. Os y plant sy'n mynd atynt, rhedent rhyw chwe troedfedd i fyny'r coed, ond os af i heibio dringant ddeg i ddeuddeg troedfedd. Wiwer fach goch feddylais i oedd y "chipmunk" ac fe gawsom ni hwyl un bore wrth wylu un yn erlid un arall o gwmpas bonyn coeden, fel merri go rownd, am tua deng munud.


Pan gyrhaeddodd y ddau ohonom ddechrau Hydref, roedd y coed, yn enwedig y 'maple' yn lliwgar eithriadol, aur, coch, melyn ac oren. Ond disgynnodd y dail a rhaid oedd i bob teulu eu casglu a chael gwared â hwy.

Tai coed yw'r mwyafrif y ffordd hyn, ac ni chaniateir coelcerthi. Does dim dewis ond rhoi'r dail mewn sachau, a'u cario i'r domen. Ar yr un pryd, tân coed sy'n y tai, ac mae oglau pinwydd sych yn llosgi yn treiddio hyd y ffyrdd, ond tu mewn, mae gwynt mwg ar y carpedi, y llenni, ein dillad - diolchwch am dân glo.

Fel y tyfodd Llanberis ar lan Llyn Padarn, codwyd y pentre hwn nid ar lan Llyn Heddychol, ond ar ochr Llyn y Drych, a drych o lyn ydyw. Yn ei ddyfroedd llonydd cysgodol, mae darlun y pinwydd a'r bedw arian i'w gweld ddydd ar ôl dydd. Syndod y llyn yw'r brithylliaid enfawr sy'n byw yn ei ddyfroedd. Wrth ben y cei bach, casglant yn haid, pob un rhwng dwy a thair troedfedd o hyd, yn gwau dawns araf drwy'i gilydd. Byddai Robin Rolls, neu Gwilym Elidir View neu Rhys fy mrawd, petai'r cyfle wedi dod, wedi mwynhau ymladd y cewri dyfrllyd hyn. Ar yr un pryd, cŵyn y naturiaethwyr yw fod y Bili Dowcar yn diflannu o'r ardal. Ydyn nhw i'w gweld ar Llyn Padarn, y gaeaf 'ma?

Daethom yma wedi paratoi ar gyfer tywydd caled, ond bu Ha Bach Mihangel yn un hir gwresog, a'r Rink Iâ Olympaidd sy'n costio cannoedd i'w rhewi, yn dadmar ddydd ar ôl dydd. Ond heddiw, oer yw'r tywydd, a'r afalau ar y goeden ddi-ddail yn disgyn i ddwy fodfedd o eira.

Pobl gymdogol dros ben yw'r pentrefwyr, gyda'u gwên garedig a'u "Hi" croesawgar i ni, ddieithriaid. Pleser ar Wener Calan Gaeaf, oedd gweld plant yr ysgolion yn cerdded mewn gwisg ffansi trwy'r pentref, tu ôl i'r injan dân, a char y plismon. Yn y banc, roedd sudd afalau a teisennau yn rhad ac am ddim i'r cwsmeriaid, a'r merched wedi'u gwisgo fel gwrachod a bwganod brain. Stori arall oedd ar y teledu - cynghori rhieni i wahardd eu plant i gasglu c'lenig, oherwydd fod rhai



digydwibod wedi bod yn gwenwyno bwyd, a phlannu pinnau a darnau o wydr mewn siocled a da-da. Daeth nemor neb o gwmpas, ac fe gafodd gwraig y ficer sy'n byw drws nesa', wledd o'i danteithion ei hun.

Efallai fod y plant a'r oedolion yn siomedig, ond roedd y siopau wedi'u haddurno, roedd lanteri 'pumkin' enfawr. Rydw i'n cofio ni yn gwneud lanteri rwdins, ond mae'r 'pumkin' yn llawer mwy addas i'r pwrpas.

Nawr, mae pawb yn aros am y gaeaf i ddod o ddifrif, a'r ieuanc yn ysu i sgio a sglefrio, ond gwamal yw'r tywydd wedi bod, ambell i ddiwrnod fel canol ha', ac eraill yn finio gan rew. Nid yw'r bobl yn sôn am y Mabolgampau Olympaidd 1980, pan wrthododd yr eira ddisgyn hyd y

funud olaf. Gofynnais i un cyfaill beth fydd y sefyllfa os na ddaw eto eleni, a'i ateb parod oedd:

"We Americans can manufacture snow, but we'd be in the money if we could make sunshine."

Mewn sgwrs â thri bachgen ysgol, y dydd o'r blaen, holais eu huchelgaïs, ac ateb y tri yn siriol oedd, ennill eu gradd, a chwilio am waith rhywle cynhesach na Lake Placid. Profiad deunaw mlynedd o fyw mewn ardal o dai haf, gwestai a gaeafau gerwin.

Mae'r lle 'ma'n debyg i Lanbêr. DIOLCH — Ein diolch i Goronwy Owen am anfon yr erthygl hon i ni o'r 'Merica, ac am ei stori 'ysbryd' yn y rhifyn diwethaf. Ein dymuniadau gorau iddo a'r teulu yn America dros y Nadolig.

TAN-Y-COED

CROESO ADREF o'r ysbyty i Miss Nance Williams, Cartref. Boed iddi adferiad llwyr a buan. Cipiwyd Miss Williams yn sydyn i Ysbyty Môn ac Arfon bythefnos yn ôl, ac wedi triniaeth lawfeddygol symudwyd hi i Ysbyty Eryri.

LLONGYFARCHIADAU i dri o blant yr ardal: Amlyn Evans, Carwyn; Annwen Parry, Ael-y-Bryn a Ffion Williams. Fferm Minffordd oedd ymysg plant ysgol gymerodd ran ym Mhasiant Llywelyn yn Theatr Gwynedd. Llongyfarchiadau iddynt am gael rhan yn llwyddiant eithriadol y pasiant hwn. Drwy eu hactio a'u canu llwyddodd plant ysgolion y cylchoedd i gyfleu i'r gynulleidfa yn y Theatr hanes Llywelyn ein Llyw Olaf, fu farw 700 mlynedd yn ôl. Clywir canmoliaeth ar bob llaw i'r perfformiad hwn.

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH

MODURDY MENAI



**FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI**

Ffôn : Portdinorwic 670882

Perchennog : J. Evans



**NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarllenwyr yr ECO**



**20% oddi ar holl
bethau CINDY**

Teganau

YN SIOP

E.WILSON HUGHES

84 Stryd Fawr

LLANBERIS FFÔN: 870491

A llu o deganau eraill i lenwi'r hosan!



**Nadolig Llawn
a Blwyddyn Newydd Dda**

**i bawb yn
Llanberis a'r Cylch
oddi wrth**

CENTRAL GARAGE

**LLANBERIS.
Ffôn: 870202**

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

NA, nid ceisio trosglwyddo unrhyw gyfrinachau i ffrindiau'r Eco yn y Kremlin 'rydym! Stori griced sydd gennym a honno'n un go arbennig.

Dylan, mab Clifford a Vera Williams, Awelon, Llanrug biau'r ffigurau uchod – ffigurau y byddai unrhyw fowliwr yn gwirioni o'u cael wrth ei enw.

Mewn gêm i'w glwb Bethesda yn erbyn Mochdre yn ystod yr haf y cyflawnodd Dylan y gamp ddi-guro o fowlio allan holl fatwyr y gwrthwynebwyr. Dyma'r tro cyntaf i chwaraewr o Glwb Bethesda wneud hyn.

Dyma ystyr y ffigurau: defnyddiodd 17 pelawd, 6 ohonynt heb ildio rhediad, sgoriwyd 38 o rediadau oddi ar ei fowlio a chafodd 10 wiced.

Ac nid rhyw ffliwc o ddigwyddiad oedd hwn, oherwydd cafodd 8 wiced mewn gêm dair wythnos ynghynt.

Mae Dylan, sy'n aelod o glwb Bethesda ers pedair blynedd wedi chwarae'n achlysurol i'r tîm cyntaf. Nid yw'n syndod, o glywed am safon ei chwarae, y bydd yn debygol o gael chwarae'n rheolaidd i'r tîm hwnnw y tymor nesaf. Ein llongyfarchiadau iddo.



Dylan gyda'r tlws — sef y bêl a ddefnyddiodd i gyflawni'r gamp, a'r cerdyn sgôr. Yn eironig iawn, y chwaraewr a ddaliodd y belen ddiwethaf i sicrhau'r record i Dylan oedd yr union un oedd yn dal y record yn flaenorol.

HEN GREFFT – OND UN NEWYDD YM MRO'R ECO

Ym Medi 1980 daeth Lewis Esposito a'i wraig Gillian Yorath i fyw i Elidir View, Brynrefail. Eu bwriad, ar ôl ymgartrefu, oedd sefydlu busnes dodrefn, gan arbenigo mewn hen ddodrefn solat i'w hail werthu am brisiau fyddai'n cystadlu â rhai dodrefn modern.

Llundainiwr yw Lewis yn wreiddiol ac mae Gillian yn hanu o Waelod y Garth, ger Caerdydd. Bellach, maent wedi ymgartrefu, a hefyd, mae'r rhan gyntaf o'u bwriad yn ffaith. Mae gan "Revival", sef yr enw a ddewiswyd ganddynt i'r busnes, gartref yn y siop/gweithdy drws nesaf i Elidir View – sef yr hen Siop Ganol, yng nghanol y pentref.


Mae Gill, perchennog y busnes, yn arbenigol mewn adnewyddu fframiau lluniau ac mewn dodrefn wedi eu goreuro. Dysgodd ei chreffft yn Llundain gyda chwmni sy'n cyflenwi ac yn trwsio hen bethau ar gyfer yr enwog Harrods yn Knightsbridge. Ar ôl cwblhau ei hyfforddiant aeth i weithio fel goreurych ac ymdriniwr fframiau lluniau gyda chwmni James Bowlets oedd yn rhan o grŵp Sotherby's.

Mae goreuro, sef gosod haen denau o aur ar bethau, yn hen, hen grefft y gellir ei holrhain filoedd o flynyddoedd i gyfnod cyn-Eiffaidd. Er mor ysgafn a brau yw'r aur a ddefnyddir heddiw gall barhau i addurno gwrthrych am ganrifoedd ond iddo gael yr amodau iawn. Testun tristwch i Gill yw gweld cynifer o berchnogion fframiau sydd wedi eu heuro yn peintio dros yr aur gwreiddiol gyda phaent "aur". Digwydd hyn fel arfer ar ôl damwain i'r fframiau. Nid yw pobl yn sylweddoli bod y ffram, yn aml iawn, yn llawer mwy gwerthfawr na'r hyn y mae'n ei fframio. Felly byddai'n

werth ystyried goreuro neu adnewyddu.

Ar hyn o bryd mae Gill yn gobeithio cael ei dewis gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'i chynabod yn swyddogol fel goreurych fframiau lluniau a dodrefn. Byddai'n gyfrifol wedyn am drwsio eiddo'r Ymddiriedolaeth.

Gweithiai Lewis fel Cynllunydd Mewnol a Chynllunydd Dodrefn yn Llundain ac roedd hefyd yn gwneud gwaith pensaernïol a gwella cartrefi. Ailadeiladu a gwella eu cartref newydd oedd eu blaenoriaeth gyntaf – gwaith a gymerodd flwyddyn llawn amser i'w gwblhau.



Gwaith cywrair — Gillian yn gosod haen denau o aur, gyda brws arbennig, ar ffrâm.

RHAGOR O LUNIAU O EISTEDDFOD BETHEL



Y Cystadleuwyr Adrodd (6-8 oed).



Y criw o enethod a ddaeth yn fuddugol yn y cystadlaethau ar gyfer Partïon Adrodd a Chanu (dan 12 oed). Hyfforddwyd y genethod gan Ann Elis a Rita Williams.



Y rhai a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth y sgets.

PENISARWAUN

DYMUNWN yn dda i Mrs M. Jones, 5 Llys-y-Gwynt sydd yn yr ysbyty ym Mangor ac i Mr Iorwerth Griffith, sydd yn Ysbyty Bryn Seiont. Gwellhad buan i Mr Griffith, Cerrig Gwynion, Waun ac i Mrs G. Lewis, 6 Llys-y-Gwynt. Mae Mrs I. Griffith wedi cael damwain i'w throed. Brysiwch wella i gyd.

LLONGYFARCHWN Gwynfryn Williams, Trem Gynfi ar ddod yn ail mewn cystadleuaeth codi pwysau yng Nghaerdydd.

YSGOL TAN Y COED

PASANT LLYWELYN — Aethpwyd â deg ar hugain o'r plant i Theatr Gwynedd yn ddiweddar, i wylïo'r cynhyrchiad o waith ysgolion Gwynedd. Credir i bawb ohonynt

fwynhau'r wledd i'r glust ac i'r llygad.

NOSON WASAEL — Mae'n arferiad bellach gan bwyllgor Eisteddfod y Pentref gynnal Noson Wasael ychydig cyn y Nadolig. Cafwyd noson lwyddiannus iawn eto eleni pan ddaeth Arfon Wyn a'i ffrindiau (sef tri aelod o'r grŵp Pererin) atom. Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iddynt am ein difyrru. Diolch hefyd i bawb a gefnogodd y noson mewn unrhyw fodd.




06190 – O CHWECH I NAW DEG!



Tudalen i'r
plant: hen
ac ifanc
gan
**DYFRIN
Y
DEWIN**



COFIWCH!




Dyma gêm i'w chwarae ar eich pen eich hun neu gyda rhywun arall. Edrychwch yn fanwl ar y llun am UN FUNUD yn unig. Yna rhwch ddalen o bapur dros y dudalen. Ceisiwch sgwennu i lawr enwau popeth a gofiwch. Yr un sy'n ennill y gêm yw'r un sy'n medru enwi y nifer mwyaf.

Gellir chwarae gêm debyg iddi mewn parti hefyd. Rhwch nifer o fân bethau – botymau, nodwydd, penislau etc. – ar hambwrdd. Rhwch funud i bawb yn yr ystafell edrych ar yr hambwrdd, ac yna cuddiwch ef. Rhaid i bawb geisio cofio beth oedd arno. Yr un â'r cof gorau sy'n ennill.


LLUN PWY?

Dilynwch y dotiau i ddarganfod pwy yw ffrind y bachgen bach.



YNYS Y TRYSOR

Gan ddefnyddio pensil, cychwynnwch yng ngheg y siarc a theithio i ogof y sgerbwd. Oddi yno ewch tua'r de i Fryn y Benglog, ac yna tua'r coed ger y donnen. Oddi yno, throwch tua'r môr i Fae'r Seren. Nofiwch ar draws i'r Trwyn Pigog. Anelwch am y Rhaeadr Wyllt ac yn ôl i Geg y Siarc. Tybed ble mae'r Trysor?



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll oddi wrth

Bistro

**45 Stryd Fawr
LLANBERIS**

Ffôn: LLANBERIS 871278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro

**CABS
PADARN**

FFÔN: LLANBERIS 871347

Gwasanaeth Tacsï a Bws Mini

Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd

Unrhyw bellter : Hur Contract

Dymuna Dafydd a Myra Price, a'r holl yrrwyr
Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Cofiwch y Nadolig hwn: CAR AC YFED – COLLI TRWYDDED
CABIAU NI – HWYL A SBRI!


Y SGWENNWR BLÛR



Pan eisteddodd Bili Blûr i lawr i sgwennu llythyr i Siôn Corn, collodd inc ar ei bapur a bu'n rhaid iddo ail-ddechrau, ond digwyddodd yr un peth wedyn. Mae ei luniau yn edrych yn union yr un peth, ond mae gwahaniaeth. Mae LLUNA yn wahanol i'r ddau arall. Mae LLUN B yn wahanol i'r ddau arall. Mae LLUN C yn wahanol i'r ddau arall. Beth sy'n wahanol?




ADEILADU'R WAL



Sawl bricsen sydd eu hangen i orffen codi'r wal at drwyn y ferch fach?

Y MATSUS SYMUDOL

Mae'r sym hon yn anghywir. A fedwch symud UN fatsen yn unig, ac wrth wneud hynny, ffurfio sym synhwyrol?



GEIRIAU COLL

H	C	A	N	U	D	E	F	Y	W
U	A	D	A	I	N	R	U	M	A
Y	L	N	N	F	A	W	R	D	U
H	C	R	O	S	H	W	T	A	U
U	I	N	I	I	R	W	N	F	A
F	D	U	E	W	S	A	Y	A	I
E	E	A	T	U	D	I	A	L	D
N	G	I	S	C	H	A	H	E	T
I	S	D	E	D	W	M	B	R	O
T	H	I	R	W	D	O	A	E	L
R	B	A	G	N	L	I	R	G	E
E	W	C	E	W	L	J	D	A	R
W	Y	D	N	E	D	E	O	C	E
C	H	D	T	J	E	S	O	S	P

Canu
yfed-
hufen
sosi
chwethin
addurniadau
afal
coeden
questeion
cardiau
bisgedi
bwyd
wyrdd
recordiau
chwarae
gemau
ereision
lmoned
balun
diod-
crau
jeli

PARTÏON Y NADOLIG

Mae 25 o eiriau yn gysylltiedig â phartïon Nadolig wedi eu cuddio yn y sgwâr uchod.

HAIRLINES

STRYD FAWR
LLANBERIS

CYNLLUNWYR GWALLT
YN ARBENIGO MEWN TORRI

Dymuna Derek a'r genethod
Gyfarchion y Tymor i bawb

Beth am ddechrau'r flwyddyn newydd gyda
perm yn ein SALE IONAWR 3ydd

PENSIYNAU YSWIRIANT MORGAI

Gwasanaeth newydd yn dechrau i bobl y fro ar 4ydd o Ionawr, 1983

Chwarter canrif o brofiad

Robert Jones a'r cwmni

Ymgynghorwyr Yswiriant a Morgais

SIOP ISAF, 7 HEOL-Y-DŴR,

PENYGROES

Ffôn: 880027 (24 awr)

Codwch y ffôn heddiw am bris

Mae gennym Gynlluniau Pensiwn, Bywydau,
Yswiriant Eiddo, Adeiladau, Cyfrifoldebau, Ceir etc. ar
gyfer pawb

ASiantaeth LEOL CYMDEITHAS ADEILADU'R HALIFAX



"PANAD" I'R HENOED – GAN Y PLANT



Henoed Bethel yn mwynhau te a baratowyd gan blant safon 4.

GWERSLYFRAU YN Y GYMRAEG CYNNYDD MAWR

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio cyhoeddwyd cymaint â 22 o werslyfrau yn y Gymraeg dan nawddogaeth Cyd-bwyllgor Addysg Cymru. Cyhoeddwyd gwerslyfrau Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, Mathemateg a Cherddoriaeth.

MATHEMATEG

Cyhoeddwyd gwerslyfrau Mathemateg ar gyfer adran y babanod, yr ysgol iau (disgyblion 7-11 oed) a'r ysgol uwchradd (disgyblion 11-18 oed). Ar gyfer yr ysgol gynradd, darparwyd addasiad Cymraeg o gwrs Nuffield ac mae llawer iawn o athrawon yn cytuno fod golwg y gyfrol gystal os nad gwell na'r Saesneg.

HANES

Cyhoeddwyd addasiadau Cymraeg o gyfres boblogaidd MacDonald *Peoples of the Past* ac erbyn hyn gall plant Cymru ddysgu am Yr Azteciaid, Y Rhufeiniaid, Yr Eifftiaid, Y Celtiaid a'r Groegiaid yn y Gymraeg. Cyhoeddwyd hefyd werslyfrau ar *Ennill y Bleidlais*, *Y Wladwriaeth Les*, *Hanes Ewrop 1815-1871*, yn ogystal ag un gwerslyfr i goffáu Saithganmlwyddiant Marwolaeth Llywelyn ein Llyw Olaf.

DAEARYDDIAETH

Mewn cydweithrediad â phrosiect y Swyddfa Gymreig yng Ngholeg Aberystwyth, cyhoeddwyd pum

gwerslyfr deniadol a diddorol ar Ffermio, Trafnidiaeth, Hamddena, Diwydiant a Phoblogaeth. Yn ogystal, cyhoeddwyd cyfrol *Lleoliad Diwydiant*.

CERDDORIAETH

Yn dilyn llwyddiant cyhoeddi *Mwynhau Cerddoriaeth*, cyhoeddwyd *Harmoni a Gwrthbwynt* (Lily Richards) a bydd y gyfrol hon yn gaffaeliad pendant i ddisgyblion sy'n dewis astudio'r pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg.

ADDYSG GREFYDDOL

Cyhoeddwyd dau o werslyfrau ar gyfer dosbarthiadau cynnar yr ysgol uwchradd, *Yr Wythnos Olaf* ac *Israel Heddiw, Palesteina Ddoe* ynghyd â chyfrol ar gyfer y chweched dosbarth *Arweiniad at Islam*.

CYDWEITHREDIAD

Bu cydweithrediad hynod o hapus rhwng Adran Gymraeg y Cyd-bwyllgor a llawer o bobl. Bu llawer iawn o bob cwr o Gymru yn eu cynorthwyo i lunio'r cyrsiau Mathemateg.

Y CYNNYDD

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, cyhoeddwyd 22 o deitlau: ym 1981, cyhoeddwyd 4. Llwyddwyd i sicrhau'r cynnydd hwn â chymorth ariannol y Swyddfa Gymreig ynghyd â chyfraniadau'r Awdurdodau Addysg a mawr yw gobaith y Cyd-bwyllgor y bydd y cymorth yn parhau er mwyn darparu cyflawnder o werslyfrau i ddisgyblion sy'n dewis y Gymraeg yn gyfrwng eu haddysg.

CYNLLUNIAU'R CYD-BWYLLGOR

Cynllun gwerslyfrau'r Cyd-bwyllgor

RAS PRAM TÎM PÊL-DROED LLANBERIS

Cynhelir y ras bnawn Llun, 27 Rhagfyr. Mae amryw o wobrau i'w hennill. Bydd digon o hwyl a sbri, felly dewch yn eich cannoedd!

Mae croeso i unrhyw un ymuno yn y ras. Bydd y cychwyn am 1.30 p.m. Am ragor o fanylion ffoniwch Lal Jones, Llanberis 870335.



Angharad Elis a Stephan Williams yn cyflwyno rhodd i Faer a Maeres Arfon, Y Cyngorydd a Mrs Francis Jones. Yn y llun hefyd mae Mr W.H. Jones, Llywydd Clwb Henoed Bethel.

CWM-Y-GLO

DYMUNA Mrs M. Lennon ddiolch ar ran y Prifathro, plant, Rheolwyr a Staff yr ysgol i bawb am gefnogi'r noson goffi a gynhaliwyd yn yr ysgol nos Lun, Rhagfyr 6, 1982. Diolch arbennig i Mr Woods am y goeden Nadolig hardd a anfonodd i'r ysgol ac i'r rhieni i gyd am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad i wneud y noson yn llwyddiannus. Enillwyd y ddol, (rhodd Mrs Moira Ellis, Brynrefail) gan Susan Parry, Brynrefail. Enillydd cystadleuaeth "Pys mewn Potel" – Catrin Gwyn, Cwm-y-glo. Enillwyd y gacen (rhodd Mrs Margaret Williams a Mrs Glenda Roberts) gan Mrs Eluned Thomas. Dyma'r rhai a fu'n lwcus yn y ddwy raffl:

Bocs o Nwyddau: 1. Meinir Lloyd Jones, Brynrefail; 2. Dafydd Ellis, Brynrefail.

Y Raffl Fawr: 1. Laura Williams; 2. David Ellis; 3. Margaret Wardle; 4. Ellen Mair; 5. Kelly; 6. GPC 190; 7. Ken Jones; 8. Liz GPC; 9. Sharon Thomas; 10. Aled Roberts; 11. Miss Jones, Bell Turkey House; 12. E. Evans, Ysgol Llanllechid.

Dymunir, ar ran pawb yn yr ysgol adferiad buan i Mr Eurwyn T. Jones y

prifathro.

GOHEBYDD – Fel y gwelwch yn y rhifyn hwn o'r Eco mae lle gwag gyferbyn ag enw Cwm-y-glo yn y rhestr o Ohebwy'r Pentref. Ar ôl cyfnod hir o wasanaeth i'r Eco mae Dafydd Price wedi mynnu rhoi'r gorau i'w swydd fel Gohebydd. Mae'n dyled ninnau fel papur iddo yn fawr iawn, a hoffem ddiolch o galon iddo am fod mor barod i ailafael yn y gwaith beth amser yn ôl er iddo fynegi'i awydd i ymddiswyddo unwaith o'r blaen. Os oes unrhyw un â diddordeb yn y swydd o Ohebydd, cysylltwch â Tony Elliot (Ffôn: Llanberis 872438) os gwelwch yn dda.

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda
oddi wrth

PAT a STAFF

**SIOP CHIPS
WAUNFAWR**

Ffôn: Waunfawr 583



GWLITH AR TARO TANT



Mae cyfle unwaith eto i weld a chlywed GWLITH, y grŵp o ferched ifainc â lleisiau swynol o Lanrug a Llanberis ar y rhaglen wythnosol Taro Tant a deledir ar 7 Ionawr. Pump sydd yn y grŵp sef Rhian Owen, Lynne Jones, Ruth Lennon, Siân Gibson a Nia Jones. Maent wedi bod yn canu gyda'i gilydd ers rhyw dair blynedd, ac wedi dod i'r amlwg lawer gwaith drwy ennill yn eisteddfodau'r Urdd, a hefyd yn y gwanwyn fe wnaethant ennill yn y gystadleuaeth i grŵp gwerin yn yr ŵyl yn Cill Airne.

Mae'r merched wedi bod yn brysur yn ddiweddar yn paratoi record gydag Arfon Wyn o'r enw 'Pwy wnaeth y Sêr', record fydd hon i blant Pendalar Caernarfon a hefyd bu'r dair sydd yn dal yn yr ysgol yn paratoi ar gyfer Pasiant Llywelyn ap Gruffydd yn Theatr Gwynedd.

Yn ymddangos ar yr un rhaglen â Gwlith fe fydd 'Hofiau Llandegai' a byddant yn gwneud i'r gynulleidfa chwerthin fel arfer, a hefyd Efed Williams o Felin y Coed ger Llanrwst.

UN O BOBL Y PLAS

MR RICHARD DAVIES – TRÊN O DDYN



Mr Richard Davies, sy'n enedigol o ardal y Groeslon, un arall o drigolion Plas Pengwaith, Llanberis, sy'n cael ei ben-blwydd yn y cartref fis Rhagfyr. Y mae Mr Davies, sy'n sengl, ac a fagwyd gyda'i daid a'i nain, John a Jane Davies, y Gilwern Isaf, Groeslon, yn 83 oed, ddydd Mercher, Rhagfyr 29, ac wrth gwrs nid anghofia staff y Plas mo'r amgylchiad, a bydd te arbennig a theisen pen-blwydd i ddathlu'r dydd. Hawdd fyddai i ymwelydd i'r Plas, pe digwyddai iddo daro ar Mr Davies ar un o goridoriau'r cartref, ei gamgymryd am un o'r staff, gan brysurdeb ei fynd a dod hyd-ddynt. O bosibl mai cychwyn neu ddychwelyd ar ôl bod yn negesa ar ran pobol y Plas y byddai, a phe carech fynd hefo fo cawsech dipyn i'w wneud i'w ganlyn gan mor chwm ei gerddediad ydyw. Gallech ei ddisgrifio fel yn "mynd i ddal trên",

ac yn wir ym myd y trenau y treuliodd Mr Davies ei oes weithiol bron i gyd – 47 mlynedd i fod yn fanwl. Ar ôl cyfnod byr, ar ôl gadael Ysgol Penfforddalen, yn Chwael y Cilgwyn, ac wedyn 'hefo ffarmwrs', dechreuodd yn stesion Llanberis (nid un trên yr Wyddfa chwaith) yn 1914, a bu wedyn ym Mhrestatyn, y Rhyl a Llandudno. Yn yr adran cario nwyddau y bu fwyaf, hefo cerbydau ceffylau tan ganol y dauddegau, ac wedyn yn dreifio lorïau a faniau modur. Bu hefyd yn gweithio yn yr adran teithwyr ac yn gwneud dyletswyddau 'giard'. Hyfrydwch yw sgwrsio â Mr Davies; buan y daw i'r golwg gymeriad hoffus, diddorol ei atgofion, a diwylliedig ei naws. Hawdd credu mai ei hoffter mwyaf ers dyddiau ei ieuencid fu darllen.

DINORWIG

Y GANOLFAN – Yn rhifyn Tachwedd o'r Eco, bu i chi ddarllen inni gael noson dra llewyrchus o Gawl a Chân yn y Ganolfan. Gwnaed elw o £60. Pasiwyd yn y Pwyllgor i rannu'r elw, sef £30 at Eisteddfod Gwaun Gynfi, a'r £30 arall tuag at gael ychwaneg o lestri i'r Ganolfan.

Peth braf yw cael canmol a chyhoeddi bod y Pwyllgor Addysg wedi bod mor garedig â rhoi gwres canolog i mewn yn y Ganolfan unwaith yn rhagor, ac felly ni fydd raid i neb ofni cael annwyd yno yn ystod y gaeaf yma.

Mae'r Pwyllgor Addysg hefyd wedi penderfynu ei bod am roi to newydd i gyd ar y ganolfan. Diolch yn fawr iddynt.

Carem estyn ein diolchgarwch i Mr Robert Hugh Thomas, Creigle am ei roddion a'i waith yn y Ganolfan. Mae bob amser yn barod iawn ei gymwynas.

Diolch hefyd i Mrs Medwen Griffith, Y Foel, am y gwaith da a wnaeth o lanhau y Ganolfan ar ôl cael y gwres canolog i mewn, a'i chael yn barod erbyn y Gymdeithas mewn byr iawn o amser.

Dymuna'r Pwyllgor Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r ardalwyr oll, a gwellhad buan i bawb sydd yn cwyno. Ar ran y Pwyllgor, Marian Jones (Trysoryddes).

PEN BLWYDD – Dymuniadau da i Mrs Kate Jones, Foelgron, Dinorwig ar ddathlu ohoni ei phenblwydd ar Ragfyr 11 eleni yn 85 oed.

O'R YSBYTY – Croesewir adref o'r ysbyty Miss Elizabeth Thomas, Llidiart y Clo, ar ôl arhosiad yn yr ysbyty. Daliwch i wella.

CROESO I'R ARDAL – Dymuniadau da a chroeso i'n plith o Lanberis, i Mr Robert a Mrs Ethel Williams, a'r teulu, sydd wedi dod i gartrefu yn Brookfield, Dinorwig, sef yr Hen Bost, Dinorwig.

I'R YSBYTY – Aeth Mrs Dilys Williams, Tŷ Capel, Dinorwig i Ysbyty Eryri, Caernarfon, am driniaeth

lawfeddygol. Gwellhad buan iddi.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL DINORWIG –

Nos Iau, Tachwedd 25 yn y Ganolfan, cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr M.J. Roberts, Bodorgan, ar Straeon Golau. Cyflwynwyd y siaradwr i'r aelodau gan Mr Hugh Williams, Paradwys, Gaerwen, llywydd y noson. Orlheiniodd y siaradwr ddywediadau gwreiddiol a ffraeth gan gymeriad arbennig. Bu trafodaeth fywiog a rhagor o straeon gan yr aelodau wedi'r sgwrs. Diolchwyd gan Mr John Peris Roberts, Maes Eilian.

DIOLCH – Ar ran eu mam dymuna teulu Mrs Maggie Roberts, 8 Maes Eilian, Dinorwig, ddiolch o galon i'w chymdogion a'i ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ati tra yn yr ysbyty. Diolch yn fawr.

LLONGYFARCHIADAU i'r canlynol o Ddinorwig fel enillwyr mewn cystadlaethau yn Eisteddfod Gwaun Gynfi, Rhagfyr 4, 1982.

Adrodd: Adran Feithrin, 3. Dafydd Wyn Jones, 5 Bro Elidir, Rhyddiaith Adran Feithrin, 2. Dafydd Wyn Jones, 5 Bro Elidir.

Rhyddiaith Safon 1 a 2, 2. Sarah Mackie, Bryn Pistyll, Fachwen.

Arlunio Dosbarth 2 a 3. 2. Sara Wood, Fron Heulog.

Deuawd dros 18 oed. 3. Mrs Betty P. Roberts, 11 Maes Eilian, a Miss Olwen B. Roberts, Tŷ'r Ysgol.

Wythawd 1. Dinorwig, (Arweinydd Miss Annette B. Roberts), yn ennill cwpan Canolfan Dinorwig.

Cyd-adrodd dros 18 oed. 2. Parti'r Foel, (Arweinydd Mrs Gwladys Evans), Allt y Foel.

Llinell Goll Mrs Dilys Williams, Tŷ Capel Dinorwig; Brawddeg o'r gair "Gwaun Gynfi", 1. Mrs Mary E. Jones, Tŷ'n Fawnog, Dinorwig.

DIOLCH – Dymuna Mr J.E. Thomas, Bwlch y Gwynt, Dinorwig, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion, a ffrindiau, am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra yn Ysbyty Môn ac Arfon yn ddiweddar, a hefyd ar ôl dod adref. Diolch arbennig i'r meddygon a'r staff am eu gofal neilltuoel. Diolch yn fawr.

NANT PERIS

PROFEDIGAETH – Ddydd Iau yr ail o'r mis yng nghartref yr henoed, Plas Maesincla bu farw Miss Elizabeth Roberts gynt o 4 Glanrafon yn 84 oed. Bu ei harwyl ym mynwent Nant Peris ddydd Sadwrn wedi gwasanaeth yng ngapel Jeriwsalem Llanberis. Cydymdeimlir â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

CROESO adra i Mr O.W. Humphreys wedi cyfnod yn yr ysbyty. Balch iawn ydym o'i weld wedi gwella mor dda.

DIOLCH – Dymuna Mr O.W. Humphreys, 3 Gwastadnant ddiolch

yn ddiffuant am bob caredigrwydd, anrhegion a chardiau a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd i'r meddygon a gweinyddesau ysbyty Môn ac Arfon a Minffordd am bob gofal.

CYFARCHION oddi wrth Mrs M.E. Pritchard, Namor, Llanberis (Ceunant, Nant Peris gynt) i'w brawd yng nghyfraith, Michael Pritchard, Glanfa, Llanberis ar achlysur ei ben blwydd yn 90 oed Rhagfyr 15.

"MEIC RALI"

Treuliodd ddyddiau yn y "Rali", Ac yn union fe fu briodi, Ar yr organ bu'n pendroni, Yn y Capel – yn y festri.

Asbri sydd yn ei gerddediad, Digri yw ym mhob cyffroad, Llonni calon wna'i gymeriad, Egni hwn a rydd adfywiad.

Ac mae'n awr yn byw yn "Glanfa" – Aelwyd sydd fel gwir gymanfa. Drama wych yw bywyd yma – Smala'n wir yw Meic wrth siopa!

A phob bendith fyddo arno Pan aiff blwyddyn arall heibio, A "NADOLIG LLAWEN" iddo, Na foed diwedd ar eu rhifo!

DILYS BAYLISS

GLYWSOCH CHI ...

am y dyn sy'n cael cyn lleied o ymarfer fel nad yw'n ymgodymu â'i gydwybod hyd yn oed!!

SCIPIAU TIM



o £16

CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL

LLANBERIS 871354

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda



I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...

**Osmond
W. Shaw**

DEINIOLEN

Ffôn:

LLANBERIS 870545

Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i Bawb

DEINIOLLEN

LLONGYFARCHIADAU calonog iawn i Lena Ann Rowlands merch Mr a Mrs Robert Rowlands, 12 Pentre Helen ar ei llwyddiant yn pasio ei SRN. Mae'n barod wedi dechrau ar ei swydd newydd yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor. Pob llwyddiant iddi eto yn y dyfodol. Oddi wrth Mam a Dad, Gwilym, Gwen a Myrddin.

DYMUNA Mrs M.A. Thomas, 3 Glan Cadnant, Caernarfon ddiolch yn gynnes iawn am y croeso a gafodd yn Eisteddfod Gwaun Gynfi, ac am y fraint o gael llywyddu yn yr Eisteddfod yn y prynhawn. Dymuna hefyd ymddiheuro iddo orfod gadael mor fuan gan nad oedd ei hiechyd yn rhy dda. Mae ei chalon yma o hyd, ac yr oedd yn meddwl amdanom drwy gyfarfod yr hwyr, ac yn mawr obeithio bod llwyddiant mawr i'r Eisteddfod, ac y byddwn yn clywed am hir am Eisteddfod Gwaun Gynfi a'i doniau lleol.

CYMDEITHAS LENYDDOL - Cyfarfu Cymdeithas Lenyddol Undebol Deiniolen yn y Ganolfan nos Lun gyda'r Parch Aled Edwards yn ŵr gwadd. Bu Mr Edwards yn olrhain hanes y Beibl. Diolchodd amryw o'r aelodau iddo am ei sgwrs ddiddorol ac addysgiadol. Mr Brian Price oedd y cadeirydd. Cynhelir y cyfarfod nesaf Ionawr 24 pryd y bydd y Parch E.T. Roberts, Bangor yn ŵr gwadd.

CLWB ELIDIR - Cynhaliwyd cyfarfod o'r Clwb yn y Clinic ddydd Mawrth Tachwedd 23. Llywydd y cyfarfod oedd Mrs C. Murren. Y wraig wadd oedd Miss Moller, 8 Tai Dinorwig, Clwt-y-Bont. Treuliwyd pnawn hynod o ddifyr yn ei chwmni. Rhoddodd sgwrs a dangosodd sleidiau lliw o'r gwahanol wledydd yn bu'n ymweld â hwy. Diolchwyd iddi gan y llywydd. Dymuna'r aelodau ddiolch yn gynnes i'r Parch Trefor Lewis am fynd i nôl Miss Moller a'i danfon adref. Diolchwyd i'r rhai canlynol am eu rhoddion i'r Clwb: Mrs Smalley, Mrs Emyr Pritchard, Mrs Maureen Evans, Miss Betti Williams, Miss Kathleen Jones, Mr Thomas David Hughes. Rhoddwyd y te gan y chwiorydd canlynol: Mrs M. Powell, Mrs Blodwen Parry, Mrs Laura Williams a Mrs Woodcocks. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Evie Williams, ac fe'i enillwyd gan Miss Kathleen Jones. Diolchwyd yn arbennig hefyd i Bwyllgor y Carnifal am y rhodd o £50 i'r Clwb. Ceir mwy o fanylion am y parti Nadolig a gynhaliwyd yn Llanberis Tachwedd 30 yn rhifyn Ionawr o Eco'r Wyddfa.

DYMUNA Lena A. Rowlands ddiolch o galon i'w pherthnasau a'i chyfeillion am y llu cardiau a rhoddion a dderbyniodd am fod yn

llwyddiannus yn y rhan derfynol o'i arholiad nyrsio, a thrwy hyn fod bellach yn SRN.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Nos Lun, Rhagfyr 6 cyfarfu'r uchod yn y Ganolfan ar eu noson olaf y flwyddyn hon. Gan ei bod yn Gyfarfod Blyneddol y V.C.O. oedd Mrs Vera Hughes, Bethesda, a dwy chwaer arall gyda hi.

Etholwyd yn llywyddes Mrs Rita Jones y Becws; yn is-lywyddes Miss Beti Williams; yn aros yn ysgrifenyddes mae Mrs B.W. Davies, ac yn aros yn drysoryddes mae Mrs Eirlys Ll. Jones.

LLUN CÔR - Hoffem gyfeirio at y darlun o lun Côr Martin Owen Llanberis oedd yn yr Eco y mis diwethaf. Roedd Mrs N. Hughes, Erw Fair, Deiniolen yn credu mai dim ond dau sydd yn fyw yn awr, ond balch ydym o glywed bod beth bynnag 3 o'r gwŷr hyn yma o hyd. Yn y sedd flaen, 4 o'r chwith mae Mr Evan Morris Williams, Dinorwig Terr, Clwt-y-Bont sydd yn awr yn 88 oed; 1af ar y chwith mae Mr John Griffith, Cae'r Bythod; a'r ail res o'r top yn y canol mae Mr Bob Hughes, Llanberis, sy'n enedigol o Ddeiniolen.

MEDAL - Yr oeddym yn falch o glywed am Maldwyn Jones, 15 Orme Road, Bangor, mab Mr a Mrs Griff Jones - mab Mrs Nelli Hughes, Erw Fair, Deiniolen yw Griff. Derbyniodd Maldwyn fedal am ei wasanaeth yn y Falklands. Cafodd ei anrhegu yn Buckingham Palace ar y 1af o Ragfyr gan Dduc Caeredin.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD - Nos Iau, Rhagfyr 2, cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y Chwiorydd Disgwylfa, pryd y cafwyd 'Bring & Buy', a'r elw tuag at Apêl Calcutta a Rajastan. Cafwyd gwasanaeth Nadolig lle cymerwyd rhan gan Mrs Miriam Lewis, Mrs Nan Owen Rhydfadog, Mrs Marian Williams Deiniol Road, Mrs Beti Wyn Davies, Mrs Jane Jones, Mrs Dilys Pritchard. Mrs A. Rees Owen, Deiniol Road oedd wrth y piano. Bydd y cyfarfod nesaf yn Chwefror 1983.

MARW - Bu farw Mrs Jennie Mabel Jones, gweddwr diweddar David Arthur Jones gynt o 'Gorffwysfa', Tai Gweledfa yn 84 oed yng nghartref ei mab a'i merch-yng-nghyfraith, Dafydd a Beryl Orwig, Cilcavan, Braichmelyn, Bethesda ddydd Sadwrn, Rhagfyr 4. Cynhaliwyd y cynhebrwng bnawn Mercher, Rhagfyr 8 yn Llandinorwig gyda'r Parch Aled Edwards, y Ficer a'r Parch Trefor Lewis yn gwasanaethu. Dymuna Dafydd a Beryl Orwig ddiolch am bob cydymdeimlad ac am roddion ariannol tuag at offer i nyrsus Bethesda.



Rhagor o enillwyr Eisteddfod Gwaun Gynfi

PLAID CYMRU - Cynhaliwyd cyfarfod o bwyllgor y gangen nos Fawrth, Tachwedd 30 yn 6 Tai Glandŵr, Clwt-y-bont. Adroddwyd bod y casglu aelodaeth am y flwyddyn 1982-83 wedi ei gwblhau. Aethpwyd ati i drefnu rhaglen lawn o weithgareddau gwleidyddol a diwylliannol. Y gyntaf o'r rhain fydd noson o Gawl a Chân a gynhelir yn y ganolfan nos Wener, Ionawr 28.

Enillwyr Clwb 100 mis Tachwedd oedd - £10 - Rhif 11, Mrs Menna Wyn Jones, 37 Tai Glanffynnon, Llanrug. £8.50 - Rhif 13, Mr Walter Hughes, 12 Tai Marian, Deiniolen.

DIOLCH - Dymuna Gwilym Rowlands, 12 Pentre Helen ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r rhoddion a galwadau ffôn tra bu'n Ysbyty Môn ac Arfon yn derbyn llawdriniaeth. Ei ddiolch hefyd i staff Ward Mona. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwyd.

Dymuna Mrs Nan Williams, 2 Ffordd Deiniol ddiolch i bawb am eu holl garedigrwyd tuag ati, tra bu'n

Ysbyty Môn ac Arfon. Hefyd am y llu cardiau a dderbyniodd ac am y caredigrwyd a dderbyniodd ym Minffordd wedyn. Diolch i staff y ddwy ysbyty am eu gofal.

Y SEINDORF - Llongyfachiadau i'r Seindorf ar ennill yr ail wobwr yng Nghei Connah ar Sadwrn, Tachwedd 27. Gyda 91 pwynt allan o 100.

Cafwyd beirniadaeth dda iawn a chanmoliaeth uchel i'r Seindorf gan y beirniad sef Mr H. Snell sydd yn arweinydd proffesiynol gyda Desford Colliery.

Ar nos Sadwrn Rhagfyr 4 fe gynhaliwyd eisteddfod Bro Gwaun Gynfi yng Nghapel Ebeneser. Yr oedd cynulliad dda o aelodau'r seindorf yn cynnig ar unawdau offerynnau chwyth. Llongyfarchiadau iddynt i gyd, yn enwedig y rhai ifainc.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i oll o swyddogion yr Eco a'r ardalwyr i gyd am eu cefnogaeth i'r Seindorf yn ystod y flwyddyn.

BETWS GARMON

BEDYDD - Bnawn Sul, Rhagfyr 5 bedyddiwyd ELIN WYN, merch fach Mr a Mrs Emyr Evans, Bron y Graig. Gwasanaethwyd gan y Parch J. Roberts.

MARW - Y mis diwethaf bu farw Miss M. Pritchard, 9 Tref Eilian, Y Waunfawr, roedd yn 90 oed. Bu'n byw am rai blyneddoddd gyda'i chwaer, Mrs J. Pritchard yng Ngraianfryn, Betws Garmon.

Er iddi adael Salem am y Waun rai blyneddoddd yn ôl fe ddaliai i gadw cysylltiad agos â'r pentre gyda diddordeb mawr yn y plant.

Cofiai'n hael amdanynt ar eu pen-blwyddi ac adeg y Nadolig.

Cydymdeimlir a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

CEUNANT

YN YR YSBYTY - Dymunwn adferiad buan i Mrs Pritchard, Glasfryn sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Abergele.

CWM-Y-GLO

TARIAN PADARN - Bydd y gêm flynyddol rhwng tîm iau Cwm-y-glo a tîm iau Llanberis yn cael ei chynnal ar gae Ffordd Padarn Llanberis ddydd Llun Rhagfyr 27 i ddechrau am 3.00 o'r gloch.

Fe fydd bws - am ddim - yn gadael Cwm-y-glo i gefnogi'r ddwy garfan.



Rhai o Enillwyr Ieuengaf Eisteddfod Gwaun Gynfi a gynhaliwyd ar Rhagfyr 4

Rhowch anrheg LLEOL y Nadolig hwn o weithdy crefftau



SIOP AMAN Stryd Fawr

DEINIOLLEN Ffôn: Llanberis 871 210

Mae'r siop yn awr ar ei hail flwyddyn ac yn mynd o nerth i nerth

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Gwll a'r teulu

**Cyfarchion Nadolig
LLANRUG**

Simneiau glân am bris rhesymol gan



G. LLOYD

4 PLAS TIRION TERRACE,
LLANRUG

Defnyddir
peiriant sugno i lanhau

Cyfarchion y Tymor i chwi oll!

Ffôn: Caernarfon 4781

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
BARRY a SUE GOODMAN

**Regent House
Tea Shop**

TE A GRILIAU
DRWY GYDOL Y FLWYDDYN
Y SGWÂR, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 4598
Galwch heibio am baned!

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

SIOP
DRIN GWALLT

ELAINE &
ALWYN
WILLIAMS

FFORDD YR ORSAF
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2023

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

BERYL a GWEN

**LLYTHYRDY
LLANRUG**



Ffôn: Caernarfon 2422

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

**ROBERTA
GRIFFITH**

BODELWY

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 4782

Ffrwythau a Llysiau at
eich drws

Dymuna
DAVID a CAROL
a holl staff

**GWESTY'R
RHYDDALLT
Llanrug**

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
i gwsmeriaid hen
a newydd



TALBOT

SOLARA
HORIZON
SAMBA – BARGEINION
GORAU 1983 – DEWCH
I WELD DROSOCH
EICH HUN

JOHN TREVOR

GAREJ HAFOD LLANRUG Ffôn: Caernarfon 3372

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i'n cwsmeriaid a'n cyfeillion oll
oddi wrth
deulu

**SIOP a MODURDY
GROESLON MARC**

LLAN (fihangel-yn-y-g) **RUG**

Ffôn: CAERNARFON 2445

CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

**GLYN & DENNIS
ROBERTS**

DYNION GLO A CHLUDWYR

**FFERM TYDDYN RHYDDID
a 4 TAI HERMON
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 2125 a 5043

CYFARCHION Y TYMOR

A

DYMUNIADAU GORAU

oddi wrth

NEIL, IRIS, MARGARET AC OLWEN

y Siop Sglodion

**Pontrhythallt
Llanrug**

SGLODION MWYAF BLASUS Y FRO !

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cwsmeriaid a'n
cyfeillion oll oddi wrth

**R. Hughes Jones
a'r Mab**

**SIOP GIG
BRYN AFON
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 3188

Arbenigwyr ar gig i'r rhewgell



**Dymuna
holl
Staff**

Y CO-OP LLANRUG

Ffôn: CAERNARFON 2937

**Nadolig
Llawen**

a

**Blwyddyn
Newydd**


Dda i holl ddarllenwyr yr Eco

COFIWCH FOD YMA BRESANT NADOLIG I BAWB —
Dillad Dynion, Merched a Phlant, Teganau, Slipars,
Blancedi, Llyfrau, Carpedi, Bwydydd a Diodydd



FE'CH SICRHAWN CHI
Y CEWCH EIN GWASANAETH
SIRIOL A'R BARGEINION
ARFEROL TRWY GYDOL

1983





Mae
David a Gill

GWESTY'R GLYNTWROG LLANRUG



yn diolch yn fawr i bawb a'u
cefnogodd yn ystod eu
blwyddyn gyntaf yn y gwesty ac
yn dymuno Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i bawb



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

RHIANNON MORRIS
a holl staff

BWSIAU ARFON LLANRUG



Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
SIOP NEWYDD

Scruffles

BOUTIQUE

- * Dillad Ffasiynol * Dillad Ysgol
- * Melysion, Sigarets

Ffordd Bethel (ger Ysgol Brynrefail)

LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon **76523**




SNOWDON GARAGE LLANRUG

Ffôn: CAERNARFON 3056



Atgyweirio MOT Gwasanaeth Torri lawr
24 awr. Teiars. Batris. Exhausts am
brisiau cystadleuol



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi
wrth Stuart, Janet, Nigel a Ken

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN :
CAERNARFON 2898

Gwaith Coffäol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarlennwyr
Eco'r Wyddfa

DYMUNA

WIL a MYRA PRITCHARD

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD
LLANRUG

(Ffôn: Llanberis 870022)

NADOLIG LLAWEN

A

BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL



LLANRUG



Y SEINDORF – Ar ddechrau'r mis sef dydd Sadwrn y 4ydd, roedd y Seindorf yn hebrwng Siôn Corn o'r orsaf ym Mhwlheli, trwy strydoedd y dref, i siop Bon Marche. Oddi yno aethant i ganu carolau ar y Maes cyn i'r Maer, Mr Wyn Lloyd Roberts droi goleuadau Nadolig y dref ymlaen. Roedd y Seindorf yn canu carolau yn yr Ysgol Gynradd ar y 6ed o Ragfyr yn ystod cinio Nadolig Henoed y pentref. Ddydd Sadwrn diwethaf

roedd y Seindorf yng Nghaernarfon yn cymryd rhan yn y Rali sydd yn un o weithgareddau i Gofio Llywelyn II. Nos Lun diwethaf, Rhagfyr 13 fe fu'r Seindorf o amgylch ysbytai Caernarfon yn canu carolau.

Y Sadwrn nesaf fe fydd y Seindorf yng Nghaernarfon unwaith eto yn canu carolau yn ystod y bore a'r prynhawn. Fe fydd eu cinio blyneddol yr un noson yng Ngwesty'r Goat ym Meddgelert.

Ddechrau'r wythnos cyn y Nadolig fe fydd yr hogia' allan unwaith eto – yng Nghaeathro ar y nos Lun ac yng Nghlwb Golff Caernarfokn ar y nos Fawrth.

Carai'r Seindorf ddiolch i'r pentrefwyr ac i'r ardal hefyd am y cefnogaeth maent wedi ei gael drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Seindorf yn edrych ymlaen yn awr am weithgareddau 1983!

CYMDEITHAS CHWIORYDD Y CAPEL MAWR –

Nos Iau Rhagfyr 2 yn Ffestri'r Capel Mawr am 7 o'r gloch daeth cynulliad da i'r Ffair Nadolig a gynhaliwyd fel arfer dan nawdd Cymdeithas y Chwiorydd. Gwnaed elw sylweddol fel canlyniad i'r ymdrech, a dymuna'r chwiorydd ddiolch yn gynnes iawn i'r ardal am eu cefnogaeth i wneud yr ymdrech mor llwyddiannus. Diolch yn gynnes iawn i bawb a gyfrannodd at y gwaith mewn nwyddau, arian a llafur gwirfoddol.

Agorwyd y Ffair gan Lywydd y Chwiorydd, Mrs Nansi Roberts. Wrth ddiolch i'r chwiorydd am eu cydweithio hapus cyfeiriodd at y golled fawr a gafodd yr eglwys ym marwolaeth Mrs Megan Owen, Glasgoed – gwraig a roddodd gymaint o wasanaeth i eglwys y Capel Mawr ar hyd y blyneddau. Mynegodd gydymdeimlad yr ardal â'i phriod, Mr Gwilym Owen, ei meibion a'r teulu oll yn eu hiraeth.

PARTI NADOLIG Plant y Capel Mawr – Y mae cryn edrych ymlaen ymhlith plant y Capel Mawr at eu Parti Nadolig a gynhelir yn y Ffestri bawn ddydd Llun, Rhagfyr 20 am bedwar o'r gloch. Derbyniwyd rhodd anrhydeddus iawn fel arfer tuag at y parti gan Mr O. Stanley Roberts, Hafod Wen (Brunei). Dymuna'r plant ac aelodau'r Ysgol Sul anfon eu cofion cynhesaf at Mr Roberts gan ddiolch yn fawr iddo am ei haelioni tuag atynt eleni eto fel bob amser.

CYMDEITHAS LENYDDOL y Capel Mawr – Nos Iau, Tachwedd 25 am saith o'r gloch cafwyd 'Sgwrs a Sleidiau' gan Mr Glynn Jones, Bryn Awel a Mr Ieuan Owen, Caernarfon. Diolchwyd iddynt gan Mr Gwilym Williams, Bryn Eifion a Mrs Dorothy Jones, Tegerin ac i'r chwiorydd am roddi'r te sef Mrs Amy Parry, Bryn Coch Terrace a Mrs O. Williams, Gwelfryn. Llywyddwyd gan Mr Gwilym Rees Parry, Morannedd.

DIOLCH i'r gwirfoddolwyr – Dymuna Mrs A. Williams, Llys Orwig ddiolch o waelod ei chalon i'r criw bychan ffyddlon sy'n mynd â phrydau o fwyd poeth yn rheolaidd i henoed yr ardal. Dywed Mrs Williams fod henoed Hafan Elan, Ffordd yr Orsaf, Stablau a Chwm-y-glo yn edrych ymlaen at bob dydd Llun a dydd Gwener.

"Maent yn dod atom ym mhob tywydd," meddai Mrs Williams, "ac mae'r bwyd yn ardderchog."

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA

oddi wrth

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd
Ffordd
Glanmoelyn
Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i fod ar eich dela dros yr Ŵyl



WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF

ATGYWEIRIO TAI
GWAIR

E. PUGH

WELDING &
FABRICATING

32 GLANFFYNNON
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 5394

Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda i Bawb

Cyfarchion y Tymor
oddi wrth bawb yn

STORFA

Mace

O.R. & M. PARRY

Sgwâr
Llanrug

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd
ar gyfer y Nadolig



Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National
Association
of
Plumbing and Mech-
anical
Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

SETIAU TELEDU LLIW
A MONO
AIL LAW

Hefyd
ATGYWEIRIO

T. CEPAS
FFORDD YR
ORSAF
LLANRUG

Ffôn: Llanberis 205

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA I CHWI OLL



Nadolig
Llawen a
Blwyddyn
Newydd Dda
oddi wrth

**Wavell
Roberts
CIGYDD**

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO!

Mynnwch y gorau
a dewch atom ni!

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda i chwi oll oddi
wrth

**R&V
JONES**

SNOWDON STORES
PONTRHYTHALLT
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 4472
PAPURAU NEWYDD
A BWYDYDD

LLANRUG (Parhad)



Disgyblion Ysgol Gynradd Llanrug a fu'n perfformio ym Mhasiant Llywelyn yn Theatr Gwynedd, Bangor.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – Tachwedd 30 cafwyd noson o ffilmiau yng ngofal Mr Ieuan Owen a Mr Glyn Jones. Llywydd y noson oedd Mr Glynne Owen, a thalwyd diolch iddynt gan Mrs M. Lloyd Williams.

Rhagfyr 7 bu Mr Islwyn Jones, prifathro ysgol gynradd Bethel, yn rhoi hanes T. Rowland Hughes.

Llywyddwyd gan Mr Ifor Williams, Gwelfryn a diolchwyd i Mr Jones gan Mrs Megan Humphreys.

CYDYMDEIMLIR – a Mrs Williams, Delfryn yn ei phrofedigaeth sydyn o golli ei chwaer ym Mangor.

DIOLCH – Dymuna Mrs Katie Griffith, 20 Hafan Elan ddiolch i'w theulu, cymdogion a llu mawr o'i ffrindiau am yr anrhegion, arian, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed Hydref 10.

Fel llywydd Pwyllgor y Carnifal dymunaf ddiolch i gyfeillion a gyfrannodd at lwyddiant y swper. Gadewais eu henwau allan yn anfwriadol. Diolchwyd i Mr a Mrs Stokes am wasanaeth y bws, Mrs Beryl Thomas, Gerallt, am baratoi addurniadau ar gyfer y byrddau, ac i'r swyddogion eraill ac aelodau'r

pwyllgor am eu gwaith di-flino yn ystod y flwyddyn er sicrhau llwyddiant yr oll o'r gweithgareddau.

HAFAN ELAN – Dymuna Mrs Jones, Rhif 7 ddiolch o galon i'w chymdogion a chyfeillion am bob cysur a chydymdeimlad a dderbyniodd ar achlysur ei phrofedigaeth o golli ei brawd.

Hefyd am y caredigrwydd a dderbyniodd yn ddiweddarach pan gyfarfu â damwain.

Mae Mrs J. Williams a Miss A. Parry, 14 Hafan Elan yn dymuno diolch i bwyllgor y carnifal am eu parodrwydd i ofalu amdanynt yn ystod y Cinio Nadolig.

MAM A PHRAM – Mae cylch mam a phram wedi ei sefydlu yn y pentref erbyn hyn. Bydd y cyfarfodydd yn Festri Capel Pontrhythallt bob prynhawn ddydd Mercher o 1.30-2.30.

BORE COFFI A STONDINAU – yn y Sefydliad Coffa, bore Llun, Rhagfyr 20 am 10.30. Yr elw at gylch mam a phram, Llanrug.

YN EISIAU – Teganau mewn cyflwr da i gylch mam a phram Llanrug. Cysylltwch â Gwenda Roberts, 4 Tal y Bont, Llanrug, Caernarfon 5649.

COFIO MRS MEGAN OWEN, GLASGOED, LLANRUG

DAETH mis Tachwedd 1982 i'w derfyn mewn niwl o dristwch i ardal Llanrug; oherwydd nos Iau, Tachwedd 25, yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor bu farw un o'i chymeriadau anwylaf – y ddiweddar Mrs Megan Owen, yn 55 mlwydd oed.

Ganwyd Mrs Owen ym Mhenmynydd, Ynys Môn, yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs William Thomas Williams. Symudodd y teulu o Fôn i Arfon, gan ymsefydlu ym Mron Hywel, Penisarwaun. Cafodd fagwraeth grefyddol ar ei haelwyd ac yn y capel a bu'n ffyddlon i'r fagwraeth honno bob cam o daith ei bywyd.

Ym mis Medi 1949 ymbriododd â gŵr o gyffelyb anian iddi hi ei hun, Mr D. Gwilym Owen, Tŷ Capel Glasgoed. Bu'r briodas yn hynod o hapus a ganwyd iddynt dri o feibion, Elidir, Berwyn ac Arfon. Treuliodd flynyddoedd cynnar ei bywyd priodasol yn ninas Birmingham. Bu yno am ddeuddeng mlynedd a hanner yn uchel ei pharch gan Gymry'r ddinas honno ac yn arbennig gan aelodau Eglwys Gymraeg Suffolk Street. Yr oedd ganddi feddwl uchel iawn o Weinidog yr Eglwys honno, y diweddar Barchedig John Smith.

Yn 1962 daeth hi a'i phriod a'r teulu yn ôl i'w hen gynefin gan ymsefydlu yn Llanrug ac ymaelodi

yn Eglwys y Capel Mawr. Ni ellir prisio ei gwasanaeth i'w chapel ar hyd y blynyddoedd. Gellir dweud yn gwbl ddibetrus fod geiriau'r Arglwydd Iesu Grist yn wir iawn amdani: 'Hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth'. Treuliodd ei bywyd fel pob gwir Gristion mewn gwasanaeth hollol anhunanol i eraill, a gadawodd le gwag iawn ar ei hol, nid yn unig ym mywyd ei theulu ond ym mywydau ei llu cyfeillion hefyd. Bu ei harwyl ddydd Mawrth, Tachwedd 30, pryd y cymerwyd rhan y gwasanaethau yn ei chartref, yn y Capel Mawr, ac ym Mynwent Penisarwaun, gan y Parch W.O. Roberts, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedigon W. Bryn Williams, Bryn Du Ynys Môn; D. Rees Roberts, Garreglefn, Ynys Môn; W.R. Williams, Y Felinheli; Neville Morris, Corwen; Ifan R. Roberts, Llafihangel Glyn Myfyr ac Aled Edwards, Ficer Penisarwaun. Cydymdeimla ardal gyfan â Mr D. Gwilym Owen, y meibion a'r teulu oll yn eu trallod. Nerthed yr Arglwydd hwy ym mhob peth.

W.O.R.

CYNRYCHIOLI CAERNARFON



Dyma Kevin Davies, Bryn Jones a Sion Dafydd Williams o Lanrug sy'n chwarae i dimau mini-rygbi Clwb Caernarfon. Mae'r tri wedi bod yn mynd yn rheolaidd ar foreau Sadwrn, drwy law a hindda, i sesiynau hyfforddi yng Nghaernarfon ar gyfer bechgyn dan 11 oed.

Eu gwobr am eu brwdfrydedd a'u medr oedd cael cynrychioli Caernarfon mewn gemau yn erbyn bechgyn cyffelyb yn Abergele a Phwllheli. Gobaith y trefnwyr yw y bydd bechgyn fel y tri uchod yn datblygu yn chwaraewyr medrus ac yn magu hyder a balchder yn y Clwb a roddodd eu cyfle cyntaf iddynt i chwarae rygbi cystadleuol.

Yn y dyfodol agos bwriada'r Clwb ehangu'r cyrsiau i fechgyn 12, 13 a 14 oed ac i ddatblygu i'r gêm 15-bob-ochr.

Bydd Clwb Caernarfon felly yn gallu cynnig rygbi cystadleuol o 7 hyd at 15 oed. Maent yn haeddu bob cefnogaeth. Felly, beth amdani fechgyn cyhyrog bro'r Eco? Am ragor o wybodaeth cysylltwch ag Emrys Jones, 37 Ffordd Cae Mur, Caernarfon.



Dyma Mrs Joan Williams o Lanrug sydd newydd ymddeol o'i swydd fel prif gogyddes Ysgol Gynradd y pentref – swydd a gyflawnodd am yn agos i 17 mlynedd. Bu am gyfnod yn gweithio fel cogyddes yn Ysgol Uwchradd Brynrefail.

Mae Mrs Williams yn uchel ei pharch yn Llanrug – mae'n weithgar iawn gyda gwahanol gymdeithasau'r pentref.

Yng nghinio blynyddol yr henoed, a drefnir gan bwyllgor Carnifal Llanrug derbyniodd rodd o radio-caset a blodau gan y pwyllgor fel arwydd o'u gwerthfawrogiad o wasanaeth di-flino Mrs Williams wrth baratoi'r bwyd ar hyd y blynyddoedd.

Ein llongyfarchiadau iddi a phob dymuniad da.

LLANBERIS

PRIODAS ARIAN – Ddechrau Rhagfyr bu John a Catherine, Rallt Goch yn dathlu eu priodas arian yng Ngwesty Dolbadarn. Daeth lluo o gyfeillion ynghyd at y teulu i ddymuno'n dda iddynt.

DIOLCH – Dymuna John a Catherine Williams, Rallt Goch ddiolch i bawb o'u cyfeillion am yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas arian.

PROFEDIGAETH – Ryw fis yn ôl colodd Mr Arthur Rogers, Stryd Newton ei fam ar ôl gwaedd hir. Yr wythnos ddiwethaf colodd ei dad yn frawychus o sydyn. Estynnir ein cydymdeimlad llwyr ag ef a'i deulu yn yr ail brofedigaeth drom yma.

ARWERTHANT NADOLIG – Yn Ffestri Nant Padarn, y nos lau cyntaf o'r mis hwn, cynhaliwyd arwerthiant gan aelodau o'r St John Ambiwylans. Daeth cynulliad da ynghyd a chafwyd arwerthiant llwyddiannus iawn. Mae Miss Parry, Stryd Ceunant a'r pwyllgor i gyd yn dra diolchgar i bawb am eu cefnogaeth.

CLWB ERYRI – Yng Ngwesty Gwynedd Ragfyr 3 cyfarfu aelodau o Glwb Eryri dan lywyddiaeth Mr Arwel Jones, Llanrug. Gwir fwynhawyd araith ddifyr iawn gan Mr Twrog Jones – yntau hefyd o Lanrug.

SWPERA – Bu aelodau Sefydliad y Merched yn mwynhau eu gwledd Nadolig yng Ngwesty Gwynedd – a mwynhaodd pawb y ddarpariaeth a wnaed ar eu cyfer.

COFIO'R PENSIYNWYR – Fel y gwyr pawb ohonom erbyn hyn mae Capel Gorphwysfa wedi ei wagio, (nid o aelodau yn unig) ond o'r seddau a'r organ a'r sêd fawr. Mae'r contractwyr sydd wedi prynu'r seddau a'r gwaith coed i gyd yn gorfod gadael llawer iawn o sbwriel coed, hynny yw, y darnau mân, mân nad ydynt o werth iddynt. Maent wedi cynnig y cyfryw i bensiynwyr yr ardal at ddechrau tân – a dyma'r drefn fel y deallaf hi. Bydd bechgyn bach a berthyn i'r Sgowntiaid yn dod o amgylch yr ardal o hyn i'r Nadolig â sachaid o goed tân i'r pensiynwyr. Bydd y coed – trwy garedigrwydd Mr a Mrs Gartside, Compton, yn cael eu cludo i iard gefn eu cartref, ac yno bydd y sgowntiaid yn torri'r coed, yn llenwi'r sachau, ar gyfer eu dosbarthu. Diolch yn fawr iawn i'r cyfeillion hyn, ac hefyd i'r Sgowntiaid am gwblhau'r gwaith o ddosbarthu'r cyfan.

YN WAEL – Hyd yn hyn mae rhai o'r trigolion yn dal yn yr ysbyty, ac eraill wedi dychwelyd gartref at eu teuluoedd, ac mae eraill yn gobeithio cael dychwelyd adref erbyn y Nadolig. Felly, gwellhad buan i chi i gyd, pe bai yn yr ysbyty yr ydych, neu yn eich cartrefi:

Mrs Jane Williams, Stryd y Dŵr yn Ysbyty Eryri; Mrs Alice Lloyd Thomas, Y Siop Grefftau, yn Eryri. Mr Hywel Morris, 2 Pen Bont; Mrs Blanche Arfon Williams, Lake View; Mrs Edith Jones, 67 Maes Padarn, yng Ngallt y Sil; Mrs Ifor Morris, Stryd Turner yng Ngallt y Sil.

RHIAN – Yn adran y plant o Ysbyty Dewi Sant Bangor mae Rhian, merch fach ieuengaf Eurwyn ac Eiddwen Thomas, Stryd y Ffynnon, ac mae yno ers wythnos neu ddwy – ond diolch am hynny mae hi'n gwella'n dda iawn er yn araf. Hwyrach y cewch ddod adra erbyn y Nadolig Rhian. Mae pawb o'r staff yn dweud eich bod yn hogan fach dda iawn, iawn yn yr ysbyty. Mae pawb adra yn Llanberis yn gwybod yn barod eich bod yn hogan dda ac yn gwir obeithio y cewch ddod adra erbyn y Nadolig, lle mae llawer iawn o anrhegion yn eich disgwyl oddi wrth Santa Clôs.

HEDDWCH – Bore Sul cyntaf o Ragfyr trefnwyd Cyfarfodydd Undebol yn Nant Padarn. Yn oedfa'r bore cafwyd anerchiad grymus iawn ar Heddwch gan Mrs Dilys Bayliss, 1 Stryd Goodman. Yn amlwg iawn roedd wedi gwneud ymchwil i'r pwnc dwfn yma, a gwir fwynhawyd y cyfan gan bawb oedd yn bresennol. Hefyd, cafwyd canu carol o'i gwaith.

Yn oedfa'r nos gwrandawyd ar bregeth gan y Parch Hugh John Hughes, Jerusalem.

MARWOLAETH – Yn Ysbyty'r Druid, Llangefni rai wythnosau'n ôl bu farw Mr Griffith Morris, gynt o Nant Peris. Bu'n cartrefu yng Nghartref Pengwaith ers rhai blynedd. Claddwyd ef ym mynwent Nant Peris. Estynnir cydymdeimlad â'i feibion a'r teulu yn eu profedigaeth. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan yr Archddiacon H. Arfon Evans.

PERSONOL – Estynnir llongyfarchiadau i'r Doctor Hywel Morris, mab Robert Wyn Morris, Craig y Nos, gynt, ar ei sefydlu'n feddyg teulu ym Mhorthmadog. Bu'n gweithio fel meddyg yn y Liverpool Royal Hospital am rai blynedd.

MYND I HONG KONG – Rhyw Nadolig digon distaw fydd hi i Elza Williams, Stryd y Ffynnon eleni, oherwydd iddi golli cwmni ei merch, Jane a'i phriod Hugh O'Donnell a'u tri plentyn – tri mab bychan, Huw, Liam a Rory.



Huw a Liam. Nid yw Rory, y brawd arall, ond 7 mis oed.

Mae'r teulu bach wedi'i mentro hi draw i Hong Kong lle mae'r tad wedi derbyn swydd fel peiriannydd. Dymunir iddynt bob llwyddiant yn eu cartref newydd gan gofio bydd plant bach yr Ysgol Feithrin ac Ysgol Dolbadarn yn cofio amdanynt dros Wyl y Nadolig.

BEDYDDIADAU

Delwen Haf – Yn Eglwys Sant Padarn bnawn Sul 28ain o Dachwedd bedyddiwyd Delwen Haf, merch fach Tony ac Anna Williams, 7 Stryd y Ffynnon. Y ddwy fam fedydd oedd Rhian Pritchard a Linda Davies, gydag Arwyn Roberts yn dad bedydd. Dymuna'r rhieni ddiolch i'w lluo frindiau a chymdogion am y dymuniadau da a'r anrhegion a dderbyniodd Delwen – ac yn enwedig i nain yn Penfro, Llanrug am y croeso a ddarparwyd ar gyfer yr achlysur. Gwasanaethwyd yn yr Eglwys gan y Parch Aled Edwards, Penisarwaun.

Andrew Vaughan – Yr 28ain o Dachwedd gyda'r Parch Aled Edwards, yn gwasanaethu, bedyddiwyd Andrew Vaughan, y mab bach cyntaf i Terry Hughes a'i briod, 5 Stryd y Ceunant.

Alun Siôn – Rhagfyr 5 yn Eglwys Sant Padarn, gyda'r Parch Aled Edwards, yn gwasanaethu bedyddiwyd Alun Siôn, mab bach cyntaf i John Gwyn Williams a'i briod, Llanfairpwll (gynt o Eirianfa).

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd Cyfarfod Blyneddol y

Sefydliad ym mis Tachwedd dan arweiniad Mrs Vera Hughes, Bethesda. Etholwyd yr aelodau canlynol i weithredu fel swyddogion a phwyllgor am y flwyddyn 1983: Llywydd, Mrs Hannah Jones; Is-lywydd, Mrs Betty Humphreys; Ysgrifennydd, Mrs Nan Owen; Is-ysgrifennydd, Mrs Dwynwen Roberts; Trysorydd, Mrs Glenys Jones.

Pwyllgor – Mrs Jan Davies, Mrs Jean Elis, Mrs Arfon Evans, Mrs Eluned M. Jones, Mrs Annie B. Jones, Mrs Dilys Phillips, Mrs Rhona Thomas.

CLWB YR ANABL – Mwynhawyd Parti Nadolig gan aelodau o Glwb Anabl Eryri yng Ngwesty Gwynedd – a chafwyd cyfarfod difyr i ddilyn y wledd.

EISTEDDFOD Sant Peris a Sant Padarn – Nos Wener, Rhagfyr 3 cynhaliwyd Eisteddfod Flynyddol Sant Padarn a Sant Peris. Llywyddwyd gan y Cynghorydd Francis Jones, yr arweinydd oedd Mr Cyril Jones, Stryd Newton; yr ysgrifennydd, Mrs Nan Owen, Teras York; y trysorydd, Mrs Brenda Roberts, Nant Peris a'r swyddogion – Mr Derek Jones, Stryd yr Wyddfa; Mr R.E. Williams, Stryd y Faenol; Mrs Maureen Lennon, Miss Bessie Roberts, Stryd Turner.

Y beirniad cerdd oedd Mr James Griffiths, Bangor; Adrodd, Islwyn Jones, Prifathro Ysgol Bethel; Arholiadau, Y Parch Aled Edwards, Penisarwaun. Cyfeillydd, Mr Huxley Thomas, Stryd Newton.

Rhestr y buddugwyr:

CANU Dan 5 oed: 1. Euron Davies, 2. Aneurin Foulkes, 3. Rheon Wyn Roberts. Dan 6: 1. Elaine Bee. 6 oed: 1. Philip Bourne, 2. Colin Ellis. 7 oed: 1. Louise Ellis, 2. Llinos Haf Jones, 3. Stephen Edwards, 4. Elwyn Foulkes. 8-10: 1. Michelle Williams, 2. Nia Roberts, 3. Kevin Edwards, Mark

Bourne a Llifon Foulkes. 10-12: 1. Cheryl Edwards, 2. Nia Williams. 12-14: 1. Jane Parry, 2. Alison Edwards. Dan 16: 1. Alison Edwards, 2. Jane Parry. Cân Werin: 1. Alison Edwards a Jane Parry. Canu penillion: 1. Alison Edwards a Jane Parry. Deuawd: 1. Alison Edwards a Jane Parry. Unawd Piano: Dan 10 oed: 1. Colin Ellis. Dan 12: 1. Cheryl Edwards, 2. Nia Williams ac Alice Jones. 12-14: 1. Alison Edwards, 2. Jane Parry. Deuawd Piano: 1. Alison Edwards a Jane Parry. Chwarae Tôn Emyr: 1. Alison Edwards. Unawd Offeryn Chwyth: 1. Kevin Edwards.

ADRODD – Dan 5 oed: 1. Aneurin Foulkes, 2. Euron Davies, 3. Rheon Wyn Roberts. Dan 6: 1. Elaine Bee. 6 oed: 1. Colin Ellis, 2. Philip Bourne. 7 oed: 1. Llinos Haf Jones, 2. Louise Ellis, 3. Elwyn Foulkes, 4. Stephen Edwards. 8-10: 1. Kevin Edwards a Nia Roberts, 2. Mark Bourne a Llifon Foulkes. 10-12: 1. Cheryl Edwards. 12-14: 1. Alison Edwards. Darllen o'r Beibl – 12-14: 1. Cheryl Edwards, 2. Alison Edwards, 3. Jane Parry, 4. Nia Williams. 14-16: 1. Ian Edwards. Modulator – Dan 10: 1. Lisa Jones, 2. Nia Roberts a Llifon Foulkes. 3. Michelle Williams, Aneurin Foulkes, Elwyn Foulkes, Euron Davies a Dylan Davies. Dros 10: 1. Alison Edwards, 2. Cheryl Edwards, 3. Ian Edwards. Arholiadau Llafar – Dan 5: 1. Gavin Carr, 2. Rheon Wyn Roberts, 3. Aneurin Foulkes ac Euron Davies. 6-8: 1. Stephen Edwards, 2. Llinos Haf Jones, 3. Philip Bourne, Dylan Davies ac Elwyn Foulkes. 8-10: 1. Kevin Edwards, 2. Llifon Foulkes, 3. Michelle Williams, Mark Bourne, Nia Roberts a Lisa Jones. 10-12: 1. Cheryl Edwards. 12-14: 1. Alison Edwards. 14-16: 1. Ian Edwards.

Enillwyd y gwpan am y gwaith gorau yn yr Arholiadau Llafar gan Ian Edwards. Aeth y gwpan am y marciau uchaf yn yr Eisteddfod i **Alison Edwards**, ac aeth y Fedal i **Cheryl Edwards** a ddaeth yn ail.

I AWSTRALIA – Bydd Bob a Hilda, Rhes y Faenol yn cael dathlu'r Nadolig gyda'u merch a'i theulu yn Awstralia. Siwrnai ddifyr i chi – ac wrth gwrs cewch Nadolig byth gofiadwy. Cofiwch gyflwyno dymuniadau gorau yr oll o'r ardalwyr i'r teulu bach draw yn Awstralia.

Am Nadolig Llawn
Wrth droed yr Wyddfa . . .



**BWYTY FFERM
BRON ERYRI
LLANBERIS** Ffôn
870391

Cyfarchion y tymor oddi wrth Mr a Mrs A. W. Hughes a'r Staff a phob dymuniad da am 1983

NEWIDIADURWYR!



"Dydy pethau wedi newid o gwmpas y bwrdd golygyddol 'ma, dwad," meddai un golygydd wrth y llall, wrth iddynt fwrw golwg dros yr Eco un noson.

Ond chi, y darllenwyr, sy'n cael y dasg o ddweud wrthynt beth sy' wedi newid. Edrychwch ar y ddau lun, rhestrwch y gwahaniaethau ac anfonwch eich atebion i Twrog Jones, 23 Ffordd Glanffynnon, Llanrug erbyn Ionawr 25. Bydd £5 o wob i'r un mwyaf craff. Dau gliw: mae dros ddeg o wahaniaethau, ac nid oes rhaid i chwi gyfri'r teils yn y cefndir!

Awdurdod Datblygu Cymru

A ydych chi mewn busnes?
A ydych chi'n meddwl
cychwyn ar eich pen eich hun?

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychain,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 52606

**Welsh
Development Agency**

DYDDIADUR

Sadwrn, 18 - LLANRUG - Cinio Nadolig y Seindorf yng Ngwesty'r Royal Goat, Beddgelert.

Sul, 19 - LLANRUG - Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr, Noson o Garolau. TAN-Y-COED - Gwasanaeth Nadolig Plant Ysgol Sut Tan-y-coed am 2 o'r gloch.

PENISARWAUN - Eglwys Santes Helen - 10.30, Boreol Weddi; 3.00, Gwasanaeth 'Christingle' y plant.

DINORWIG - Eglwys Santes Fair - 9.30, Cymun Bendigaid; 4.30, Gwasanaeth y Plant.

DEINIOLLEN - Eglwys Santes Fair - 9.30, Cymun Bendigaid; 4.30, Gwasanaeth y Plant.

DEINIOLLEN - Eglwys Crist, Llandinorwig, 10.30, Cymun Bendigaid. Capel Ebeneser, 5.30, Gwasanaeth Carolau Undebol.

Llun, 20 - LLANBERIS - Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.

Y Gymdeithas Lenyddol yn Festri Capel Coch am 7.00.

DEINOLEN - Parti Nadolig Cangen Merched y Wawr yn y Ganolfan.

Mercher, 22 - YR YSGOLION yn cau dros Wyl y Nadolig.

Gwener, 24 - PENISARWAUN - Eglwys Santes Helen - 11.30 p.m. Cymun Bendigaid Dwyieithog.

Sadwrn 25 - LLANRUG - Y Cyngor Eglwys - Cymun dan arweiniad Gweinidogion yr ardal i ddechrau am 9.30 y bore yng Nghapel Hermon.

DINORWIG - Eglwys Santes Fair - 9.30 a.m. Cymun Bendigaid.

DEINIOLLEN - Eglwys Crist, Llandinorwig - 10.30 a.m. Cymun Bendigaid Dwyieithog.

Sul 26, DEINIOLLEN - Gwasanaeth 'Christingle' plant yr Ysgolion Sul yn Eglwys Crist, Llandinorwig.

DINORWIG - Eglwys St Mair, 9.30 a.m. Cymun Bendigaid.

PENISARWAUN - Eglwys Santes Helen, 10.30 a.m. Cymun Bendigaid.

Llun, 27: LLANBERIS - Ras Pramiau Tim Pêl-droed Llanberis 1.30

Rhagfyr 29 a 30 - Cwmni Theatr Cymru yn perfformio 'Noa' yn Theatr Gwynedd, Bangor am 2 a 7 o'r gloch.

Rhagfyr 31 - Perfformiad am 1 o'r gloch yn unig a Ionawr 1.

Ionawr 4-8, Perfformiadau am 2 a 7 o'r gloch.

Gwener 31, LLANRUG - Y Gymdeithas Lenyddol Capel Mawr - 'gwynos' noson yng ngofal merched Tan-y-coed.

Ionawr 1983

Iau, 6: WAUNFAWR - Sefydliad y Merched

Gwener, 7: BRO - 'Gwlith' ar S4C am 7.30 p.m.

BRO - Clwb Eryri - Gwesty Gwynedd, Llanberis.

Mawrth, 18: LLANRUG - Y Gymdeithas Undebol - Noson Gerddorol gydag Edward Morris Jones.

Iau, 27: LLANBERIS - Sefydliad y Merched

WAUNFAWR - Merched y Wawr gyda Mrs Mary Vaughan Jones.

DYDDIADAU I'W COFIO

Iau, Chwefror 3 - BETHEL - Plygu Eco'r Wyddfa yn y Neuadd.

Gwener, Chwefror 4, BRO - Ffug-Eisteddfod Eco'r Wyddfa yn Neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug.

TWTIO MYNWENTYDD NANT PERIS

Bydd criw o bobl ifanc yn mynd ati yn ystod yr wythnosau nesaf i dcluso mynwentydd Nant Peris. Dywedodd Mr Islwyn L. Jones, clerc Cyngor Cymuned Llanberis wrth yr Eco y bydd y gweithwyr yn rhan o fath o gynllun creu gwaith ac yn cael eu cyflogi am flwyddyn.

Byddant hefyd yn tacluso o gwmpas cae peldroed Llanberis - ac yn cyflawni unrhyw waith cyffelyb sydd ei angen o fewn y plwy.



RECORDIAU NEWYDD Y NADOLIG

* **TREBOR EDWARDS** - "Ychydig Hedd". Y record orau eto gan ganwr mwyaf poblogaidd Cymru.

* **TELYN CYMRU 5** - Partïon Llangwm, Cymerau, Merched y Garth a Tregarth, Ieuan ap Siôn, Geraint a Mayda a Triawd Dyfi.

* **DOREEN LEWIS** - "Galw mae 'Nghalon'"

* **AIL SYMUDIAD** - "Sefyll ar y Sgwâr" - eu record hir gyntaf wych!

* **"CWLWM PEDWAR"** - Bwchadanas, Mabsant, Penderyn a Seithenyn

* **CLWT Y DDAWNS 3** - Rhagor o alawon dawns Cymreig

* **CÔR MEIBION Y BRYTHONIAID A BAND LLANEURGAIN**

* **TOM EVANS (TWM GWANAS)** - "Ar ryw Noswaith Hyfryd"

* **TEULU HAFOD-Y-GÂN** - Doniau'r teulu enwog o Bwll-Glas

* **"SESIYNAU SOSBAN"** - Urien, Anghenfil, Newyddion, Eliffant, Derec Brown a'r Racaracwyr, Sian Wheway, Canna, Rocyn, Maffia Mr Huws, Angylion Stanli - i gyd ar un record!

COFIWCH HEFYD "SÊL SAIN" - 43 o deitlau hanner pris!

NADOLIG LLAWEN oddi wrth SAIN, LLANDWROG, CAERNARFON (Llandwrog 831 111)

sain (Recordiau) Cyf

CHWARAEON

Difyrion i'ch cadw'n ddiddig yn ystod y gwyliau. Mae rhai o'r atebion ar waelod y ddalen. Bydd yn rhaid i chwi ddisgwyl tan y rhifyn nesaf i gael gwybod pwy oedd y teuluoedd cyntefig.

TEULUOEDD CYNTEFIG

Dyma broblem i'ch cadw mewn penbleth am oriau os nad tan y rhifyn nesaf o'r Eco!

Flynnyddoedd lawer yn ôl roedd pum teulu o bobl cyntefig yn byw mewn ogof, ar lyn, mewn pabell, i fyny coeden ac mewn cwt mwd. Enwau'r gwŷr oedd Ach, Ech, Ich, Och, Uch. Y gwragedd oedd Bachog, Cegog, Diog, Gwanog a Lleuog. Gwaith y dynion oedd gwneud dillad, ffermio, gwneud arfau, heliwr ac ymladdwr.

Gan ddefnyddio'r disgrifiadau isod a fedrwch benderfynu pa ddyn oedd yn gwneud pa waith a phwy oedd ei wraig, ac ymhle roeddynt yn byw?

1. Mae'r dyn sy'n gwneud arfau yn eu rhoi i Och ar gyfer ei waith, ac i ŵr Diog.
2. Mae Lleuog yn falch iawn o'i thy modern ar ben coeden, ac yn treulio pob prynhawn yn glanhau arfau rhyfel ei gŵr.
3. Bachog yw gwraig Ich; ond nid gwraig fferm yw Gwanog.
4. Mae Uch yn derfnyddio'r crwyn a gaiff gan ddyn yr ogof i wneud dillad. Mae'n byw ar dir sych.
5. Nid yw'r ffermwr yn byw mewn pabell, ac nid yw Cegog yn byw mewn ogof.
6. Nid Ach yw'r ymladdwr ac nid yw Och yn byw ar y llyn.

Y GAU NEU'R GWIR

1. Mae adenydd wombat dros dair troedfedd ar draws.
2. Mae clagwydd yn dodwy tri ŵy ar y tro.
3. Mae clustiau eliffantod Affrica yn fwy na rhai'r India.
4. Mae'n bosibl gwneud margarin o ffa soya.
5. Dim ond mewn sŵ y gellir gweld y 'Great Auk' bellach.




CAMGYMERIADAU

Mae camgymeriad – gramadegol, hanesyddol, ieithyddol etc – ym mhob brawddeg.

1. Roedd ei llygaid yn ddu oherwydd iddi roi gormod o gascara arnynt.
2. Eisteddais yn yr ardd i wyllo'r gwenyn yn casglu mêl.
3. Richard Bird oedd y dyn cyntaf i hedfan dros Begwn y De.
4. Wedi'r storm, sylwais fod yr afon wedi gorlifo drosodd.
5. Mae coffi yn help i sobri rhywun sydd wedi yfed gormod o alcohol.

ANGHENFILOD

1. Ymhle mae 'Nessie' yn byw?
2. Pa un oedd y dyn drwg; Dr Jekyll neu Mr Hyde?
3. Beth oedd King Kong?
4. Beth oedd y Triffids?
5. Os oes y fath beth yn bod, ble mae Yeti i'w ganfod?



BWYD A DIOD

Mae'r dywediadau hyn am fwyd a diod un ai'n gelwydd neu'n berffaith wir. P'run?

1. Mae cocoa i'w gael o gnau coco (coconut).
2. Gellir coginio a bwyta danadl poethion fel llysiau gwyrdd.
3. Hufen sy'n tewychu caws lemwn (lemon curd).
4. Mae ychydig o oleum morrhuae yn gwneud lles i chwi.
5. Mae 'gin' yn colli ei flas os cedwir mewn casgen yn rhy hir.

MEDDYLIWCH ETO!

1. Roedd deunaw o lyffantod mewn pwll yn fy ngardd. Cafodd y cyfan ond chwech eu bwyta gan greyr glas. Faint oedd ar ôl?
2. A yw'n bosibl i ddyn briodi chwaer ei weddw?
3. A yw'n bosibl i ddau berson, ar yr un pryd, sefyll tu cefn i'w gilydd?

EICH DEWIS CHWI

1. Ar Ionawr 5ed 1797, gwisgodd James Heatherington rywbeth ar strydoedd Llundain a achosodd i ferched lewygu a phlant i sgrechian. Beth?
(a) het silc, uchel
(b) masg anghenfil
(c) neidr wedi ei lapio am ei wddf
2. Mae sect o'r enw Lothardi yn credu –
(a) fod y byd yn wastad
(b) fod bwyta madarch yn eu cysylltu â duwiau
(c) fod hawl foesol a chyfreithiol ganddynt i wneud unrhyw beth o leiaf 27 modfedd o dan y ddaear.
3. Pa arweinydd milwrol oedd mewn ofn ddyddiol o roi genedigaeth i eliffant?
(a) Field-Marshal Gebhard Blucher o Brwsia
(b) General Dwight Eisenhower
(c) Dug Wellington.
4. Pa beth y mae'r "Swiss guards" yn ei warchod?
(a) gemau ar gyfer gwneud clociau Yswisdir
(b) y Pab
(c) banciau'r Swisdir.
5. Sawl gwaith mae Gweddi'r Arglwydd yn ymddangos yn y Beibl?
(a) unwaith
(b) dwywaith
(c) teirgwaith.



1. Na. Mae cocoa i'w gael o'r goeden yn gefn, mae'n bosibl!
3. Os yw'r ddau berson yn sefyll gefn unrhyw un!
mae'r dyn wedi marw, ac ni all briodi!
2. Na. Os yw'r wraig yn weddw, yna 1. Chwedi!
Meddyliwch eto!
5. Cywir.
4. Efallai wir – yr enw am 'cod liver oil' lemwn.
3. Na. Wy sy'n tewychu'r caws 2. Cywir.

Bwyd a Diod
1. Na. Mae cocoa i'w gael o'r goeden marw allan ers 1824.
5. Anghywir: Mae'r 'Great Auk' wedi 4. Cywir.
3. Cywir.
2. Anghywir: Yr wydd sy'n dodwy.
Y Gau neu'r Gwir
1. Anghywir: Anifail yw Wombat.
unrhywbeth yn cyflymu'r broses.
raddfa o 15g bob awr. Nid oes 5. Na. Mae'r corff yn llosgi alcohol ar 4. Nid oes angen y gair "drosodd".
3. Richard Byrd.
2. Casglu nectar a wna'r gwenyn.
1. Mascara ddylai fod ar ei llygaid.

CAMGYMERIADAU
5. (b) dwywaith – Mathew VI a Luc XI.
4. (b) Y Pab.
3. (a) Gebhard Blucher.
ddaeu.
ymhellach na 27 modfedd o dan y 2. (c) maent yn credu na all Duw weld ar ei ben "a tall structure ..."
1. (a) het silc – cafodd dditwy am wisgo
EICH DEWIS CHWI
fath gwahanol.
5. Yn yr Himalayas. Dywedir fod dau 4. Planhigion yn hela a lladd pobl mewn 3. Gorilla anferth mewn ffilm o'r Stevenson.
2. Mr Hyde, yn stori enwog R.L. 1. Loch Ness, Yr Alban.
ANGHENFILOD
ATEBION